# Y tu hwnt i COVID: dysgu yn y cyfnod nesaf
# Dadansoddiad o’r sgyrsiau

Mai 2021

wavehill™
social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

## Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd


Awduron yr adroddiad:

Llorenc O'Prey, Nina Sharp, Eddie Knight, Tony Jones ac Anna Burgess



Cyfieithwyd gan Iwan Rhys

Mai 2021

Fersiwn: TERFYNOL



- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2–4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, London, N8 9AS

Manylion cyswllt:

| | |
|---|---|
| Ffôn: | 01545 571711 |
| E-bost: | wavehill@wavehill.com |
| Twitter: | @wavehilltweets |
| Gwefan: | www.wavehill.com |

Dylai unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r adroddiad hwn gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Llorenc O'Prey (llorenc.oprey@wavehill.com)

# Cynnwys


1 Cyflwyniad ........ 6
2 Themâu Allweddol ........ 9
3 Beth Weithiodd yn Dda a Pham ........ 16
4 Cynorthwyo Parodrwydd i Ddysgu ........ 23
5 Cynorthwyo Cynnydd Dysgwyr ........ 30
6 Casgliadau ........ 36
Atodiad: Canllaw Trafod ........ 38

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r themâu allweddol a godwyd mewn sgyrsiau *Y tu hwnt i COVID: dysgu yn y cyfnod nesaf* ac ar draws y sgyrsiau hynny. Daeth y sgyrsiau ag ymarferwyr addysg o bob rhan o Gymru ynghyd i drafod effaith pandemig COVID-19 ar ddysgu ac addysgu. Roeddynt yn trafod beth gallwn ddysgu o'r cyfnod o darfu, a sut gall ysgolion, lleoliadau addysg a'r system addysg ehangach symud ymlaen gyda'i gilydd.

Cymerodd 363 o ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill ran yn y sgyrsiau. Mewn 59 o drafodaethau ar ffurf grwpiau bach, roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli amrywiaeth eang o leoliadau, ysgolion a sefydliadau ehangach sydd â diddordeb mewn addysg. Amcanion y sgyrsiau oedd rhoi amser a gofod i'r cyfranogwyr fyfyrio a meddwl am sut rydym yn symud gyda'n gilydd allan o'r cyfnod presennol o darfu. Diben hyn oedd rhannu profiad a'r hyn a ddysgwyd.

Gwahoddwyd y cyfranogwyr i roi eu barn ar draws tri maes sylweddol:

1. Beth sydd wedi gweithio'n dda dros y flwyddyn ddiwethaf a pham y gwnaeth weithio'n dda,
2. yr heriau a'r cyfleoedd y gallai'r ymarferwyr fod yn eu hwynebu wrth gynorthwyo dysgwyr â'u parodrwydd i ddysgu yn dilyn tarfiadau'r flwyddyn ddiwethaf,
3. yr heriau a'r cyfleoedd y gallai'r ymarferwyr fod yn eu hwynebu wrth sicrhau cynnydd dysgwyr yn y misoedd nesaf.

## Themâu Allweddol

Roedd themâu mynych yn codi'n gyson ar draws tri maes y sgyrsiau. Roedd y rhain yn gyffredin i'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr.

Thema allweddol oedd pwysigrwydd cefnogi **lles dysgwyr**. Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn egluro bod lles ehangach wedi dod yn flaenoriaeth allweddol a oedd yn llywio ymgysylltiad â'r dysgwyr a'u teuluoedd. Roedd cyfranogwyr ar draws lleoliadau ac ysgolion yn amlinellu materion fel cynnydd mewn gorbryder, straen ac ynysigrwydd cymdeithasol, yn ogystal â bod lleihad mewn rhyngweithio rhwng cyfoedion a gweithgarwch corfforol yn heriau sylweddol yr oedd y dysgwyr yn eu hwynebu. Gan fyfyrio ar y 12 mis diwethaf, maes allweddol o gynnydd a nodwyd gan y cyfranogwyr oedd cryfhau cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol neu'r lleoliad. Roedd y sefyllfa wedi galluogi'r ymarferwyr i ddatblygu mwy o ddealltwriaeth o fywyd cartref y dysgwyr, er enghraifft, gan eu galluogi i deilwra eu cymorth yn well.

Thema hollgyffredinol allweddol arall ar draws y sgyrsiau oedd cyflawni **dysgu ac addysgu effeithiol**. Yn sgil y tarfu yr oedd ysgolion a lleoliadau wedi'i wynebu, bu gofyn i'r ymarferwyr addasu ar gyfer mwy o ddarpariaeth dysgu digidol a chyfunol. Roedd effaith y tarfu ar gynnydd dysgwyr yn amlwg yn y myfyrdodau ar ddysgu ac addysgu. Ffactor allweddol yn yr ymatebion oedd pwysigrwydd sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau a'r hyder angenrheidiol i ddefnyddio offer addysgu digidol. Roedd yr ymarferwyr hefyd yn defnyddio agweddau

arloesol addysgol yr oedd offer digidol yn eu caniatáu, megis dysgu ac addysgu cydamserol ac anghydamserol.

Thema allweddol arall a godwyd gan gyfranogwyr oedd **ymgysylltiad rhieni**. Cyfeiriodd rhai cyfranogwyr at y cyfraniad pwysig roedd rhieni a gofalwyr wedi'i wneud o ran cefnogi addysg eu plant dros y 12 mis diwethaf. Teimlai llawer fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran sefydlu dulliau cyfathrebu mwy cadarn a datblygu perthynas fwy cadarnhaol â rhieni. Roedd llawer yn teimlo bod hyn yn gyflawniad sylweddol.

## Beth Weithiodd yn Dda a Pham

Thema allweddol a godwyd gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr mewn perthynas â beth weithiodd yn dda oedd y defnydd helaethach o **offer a phlatfformau dysgu ac addysgu ar-lein**. Roedd darparu cyfleoedd i gyfranogwyr ddatblygu eu sgiliau yn rhoi'r sylfaen i bontio'n effeithiol i ddysgu ar-lein a dysgu cyfunol. Nododd y cyfranogwyr hefyd fuddion y ffyrdd newydd o weithio o ran cynorthwyo **cyfathrebu helaethach a mwy effeithiol**. Roedd hyn yn cynnwys gofyn i rieni am adborth ar sut i gynorthwyo'r plant yn well ar-lein ac o bell.

Roedd rhai yn teimlo bod trefniadau newydd wedi caniatáu llawer mwy o hyblygrwydd yn y modd y mae staff yn gweithio ac wedi annog **gwell cydweithredu a chyfathrebu** ymysg staff i ddatrys problemau a chanfod atebion. O ganlyniad i ffyrdd newydd o ddysgu ac addysgu, teimlai'r cyfranogwyr bod rhai dysgwyr wedi dod yn **fwy annibynnol**. Roedd y rhain yn cynnwys dysgwyr yn cymryd mwy o berchnogaeth o'u dysgu, yn ogystal â bod y trefniadau yn fwy addas i rai dysgwyr a oedd yn flaenorol yn ei chael yn anodd ymgysylltu yn y dosbarth.

Gwelwyd themâu trawsbynciol hefyd a oedd yn nodi pam y bu'r dysgu ac addysgu yn effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys pwysigrwydd **ysgogiad ac ymgysylltiad staff.** Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y bu staff yn barod i fynd yr ail filltir wrth ymateb i anghenion dysgwyr ac wrth ddatblygu eu sgiliau eu hunain. Roedd rhai hefyd yn teimlo bod staff ysgolion hefyd wedi **cydweithio'n effeithiol**, a bod hynny wedi'i yrru gan synnwyr mwy cyffredinol o gydsafiad a ddaeth i'r amlwg ar draws y sector. Yn gyffredinol, mae'r profiadau dros y 12 mis diwethaf wedi arwain at ysgolion yn datblygu mwy o **allu i ymaddasu**, y gallu i fabwysiadu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio.

## Cynorthwyo Parodrwydd i Ddysgu

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr wedyn archwilio'r heriau a'r cyfleoedd sy'n codi i ymarferwyr wrth iddynt geisio cynorthwyo eu dysgwyr, fel eu bod yn barod i ddysgu. Cyfeiriodd y cyfranogwyr at amrywiaeth eang o heriau. Roedd y rhain yn cynnwys cefnogi **lles** dysgwyr, gan gynnwys mewn perthynas â'u hiechyd meddwl. Roedd pryderon penodol ynglŷn ag effaith ddilynol y tarfu ar yr addysgu ar **ddysgu a chynnydd**. Roedd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â chynnydd y dysgwyr tuag at **sgiliau sylfaenol** a hanfodol, gan gynnwys llawysgrifen a llythrennedd. Roedd pryderon ehangach hefyd ynglŷn â cholli **cyswllt arferol a chymdeithasol**, gan gynnwys pwysigrwydd ailsefydlu trefn ddysgu arferol a chyfeillgarwch â chyfoedion.

Cynigodd y cyfranogwyr amrywiaeth o ddulliau a chyfleoedd i oresgyn yr heriau hyn. Roedd rhai yn teimlo, er enghraifft, y dylid **canolbwyntio mwy** ar les a sgiliau sylfaenol oddi mewn

i'r diwrnod ysgol yn y misoedd nesaf. Blaenoriaeth allweddol i lawer o ymatebwyr o ran cael dysgwyr yn ôl i'r drefn arferol ac ailgysylltu â'u cyfoedion oedd drwy **chwarae a chyfleoedd i gymdeithasu**. Nodwyd hefyd bod **ymgysylltu a chymorth** i staff yn bwysig wrth ffurfio ymatebion a sicrhau effeithiolrwydd prosesau a threfniadau gweithio diwygiedig. Teimlwyd er enghraifft bod gofyn sicrhau **amser ac adnoddau** digonol i ganiatáu i ymarferwyr ddatblygu a chyflawni amrywiaeth ehangach o gefnogaeth ochr yn ochr ag addysgu.

## Cynorthwyo Cynnydd Dysgwyr

Yn olaf, trafododd yr ymarferwyr sut i alluogi'r dysgwyr i wneud y cynnydd sydd ei angen er mwyn symud ymlaen â'u dysgu. Nododd yr ymarferwyr nifer o heriau gan gynnwys pwysigrwydd creu **amgylcheddau dysgu cadarnhaol** i gefnogi'r dysgwyr wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Thema allweddol yn y sgwrs hon oedd yr angen i ganolbwyntio ar **ddatblygu amrywiaeth o sgiliau sylfaenol**. Roedd hyn yn cynnwys atgyfnerthu'r dysgu a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod clo, gan gynnwys llythrennedd ddigidol, yn ogystal â'r sgiliau hynny y gellid bod wedi effeithio'n negyddol arnynt, fel darllen ac ysgrifennu. Roedd y cyfranogwyr hefyd yn pryderu ynglŷn â **phwysau cyson ar staff**, gan gynnwys llwythi gwaith trwm.

I oresgyn yr heriau hyn, roedd y themâu allweddol yn cynnwys annog **dull ysgol gyfan** a'r angen am **weledigaeth hollgyffredinol** i yrru a llywio'r ymdrechion. Pwysleisiwyd pwysigrwydd **gallu ac adnoddau** digonol i reoli'n effeithiol y gwahanol flaenoriaethau ac ymrwymiadau sy'n wynebu ysgolion a lleoliadau. Mynegodd rhai bwysigrwydd **eglurder a sicrwydd** er mwyn cynllunio a pharatoi, yn arbennig mewn perthynas â threfniadau asesu.

Roedd y cwricwlwm newydd yn thema allweddol yn yr ymatebion. Roedd hyn yn cynnwys y rhai a oedd yn teimlo y bu profiad y flwyddyn ddiwethaf yn gyfle pwysig i ddatblygu sgiliau ac arbenigedd ynglŷn â dylunio cwricwlwm ac addysgeg arloesol. O'r safbwyntiau hyn, er mwyn manteisio ar y cynnydd a wnaed mewn llawer o feysydd, a dysgu proffesiynol, byddai'r creadigrwydd a'r arloesi y mae hyn wedi'i greu dros y 12 mis diwethaf o fudd i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Ar y llaw arall, mynegwyd pryderon ynglŷn ag amserlen cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Roedd rhai yn teimlo ei bod yn anodd gweld sut gallai ysgolion ymrwymo'r amser a'r adnoddau angenrheidiol i ddatblygu eu cwricwlwm newydd yng nghyd-destun yr heriau y maent yn eu hwynebu.

## Casgliadau

Wrth feddwl am y dyfodol, roedd rhai ymarferwyr yn teimlo bod y 12 mis nesaf yn gydbwysedd o geisio cynnal a chadarnhau'r cynnydd a wnaed, tra'n lliniaru effeithiau negyddol y tarfu ar ddysgu ac addysgu. Roedd amgylchiadau, brys a rheidrwydd y sefyllfa yn golygu bod gofyn i ymarferwyr ac ysgolion weithredu ac arloesi, a hynny weithiau yn sydyn iawn. Roedd rhai yn teimlo bod yr amgylchiadau yn rhoi rhyddid iddynt arbrofi, a rhoi syniadau newydd ac arloesol ar waith, gan gynnwys mewn perthynas â dysgu ac addysgu.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi creu heriau sylweddol. Roedd hyn yn cynnwys **heriau a oedd eisoes yn bodoli** ac yn wynebu'r gymuned addysg, fel gwahaniaethau o ran ymgysylltiad a'r bwlch cyrhaeddiad. Bu'n rhaid i ymarferwyr ac ysgolion ddod o hyd i ffyrdd newydd i fynd i'r

afael â'r heriau hyn, fel annog ymgysylltiad o bell. Cyfeiriodd yr ymarferwyr hefyd at **heriau newydd sy'n dod i'r amlwg**. Roedd y rhain yn dueddol o ganolbwyntio ar heriau gweithredol cynorthwyo dysgwyr, gan gynnwys cynnig darpariaeth lles, ymgysylltu a chyfathrebu â rhieni, a darparu amgylcheddau dysgu diogel.

Mewn ymateb i'r heriau hyn, roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud. Roedd hyn yn amlwg yn arbennig mewn perthynas â **phontio rhwng amgylchedd dysgu'r cartref a'r ysgol**, ac wrth ddatblygu gwell dulliau **cyfathrebu â rhieni**. Nodwyd bod mwy o ymgysylltiad â dysgu ar-lein a dysgu cyfunol oll yn galonogol.

# 1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r themâu allweddol a godwyd mewn sgyrsiau *Y tu hwnt i COVID: dysgu yn y cyfnod nesaf* ac ar draws y sgyrsiau hynny. Daeth y sgyrsiau cenedlaethol hyn ag ymarferwyr addysg o bob rhan o Gymru ynghyd i drafod effaith pandemig COVID-19 ar ddysgu ac addysgu, beth gallwn ddysgu o'r cyfnod o darfu, a sut gall ysgolion, lleoliadau addysg a'r system addysg ehangach symud ymlaen gyda'i gilydd.

Diben yr adroddiad yw darparu adnodd ymarferol i ymarferwyr, drwy nodi a rhannu profiadau, ymarfer, a gwersi a ddysgwyd, gan gynnwys syniadau ynglŷn â *pham* fod ymarferwyr wedi cael llwyddiant gyda dulliau gweithredu penodol, a'r egwyddorion y tu ôl iddynt. Y mae hefyd yn ceisio ysgogi trafodaeth a syniadau ynglŷn ag ymarfer effeithiol er mwyn cynorthwyo dysgu ac addysgu, nawr ac i'r dyfodol.

## Y tu hwnt i COVID: dysgu yn y cyfnod nesaf

Cynhaliwyd y sgyrsiau dros dri diwrnod ym mis Mawrth 2021, a gwnaeth 363 o ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill gymryd rhan ynddynt. Mewn 59 o drafodaethau ar ffurf grwpiau bach, roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli amrywiaeth eang o leoliadau, ysgolion a sefydliadau ehangach sydd â diddordeb mewn addysg. Cynhaliwyd 11 o'r sgyrsiau yn Gymraeg, a 48 yn Saesneg.

Roedd y cyfranogwyr a gymerodd ran yn y sgyrsiau yn cynrychioli meithrinfeydd ac ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â lleoliadau eraill fel Unedau Cyfeirio Disgyblion a Cholegau Chweched Dosbarth. Roeddynt yn cynnwys penaethiaid (n= 189), dirprwy benaethiaid (n= 94), ac athrawon ac ymarferwyr eraill (n= 28). Roeddynt hefyd yn cynnwys rhanddeiliaid addysg ehangach fel partneriaid gwella ysgolion, cynghorwyr herio, a staff a sefydliadau eraill sy'n cynorthwyo lleoliadau ac ysgolion (n= 52).

Roedd y sgyrsiau eu hunain yn ceisio ysgogi trafodaeth yn ymwneud â dysgu ac addysgu ar draws tri phwnc penodol. Wedi'u harwain a'u hwyluso gan gyd-ymarferwyr, roedd y trafodaethau yn cael eu llywio gan ymholi gwerthfawrogol, sef dull sy'n ceisio canfod cryfderau ac ymarfer effeithiol. Gofynnwyd amryw gwestiynau i'r cyfranogwyr a luniwyd i archwilio eu profiadau, arferion ac awgrymiadau ar draws tri maes, sef:

1. Beth sydd wedi gweithio'n dda dros y flwyddyn ddiwethaf a pham y gwnaeth weithio'n dda,
2. yr heriau a'r cyfleoedd y gallai'r ymarferwyr fod yn eu hwynebu wrth gynorthwyo dysgwyr â'u parodrwydd i ddysgu yn dilyn tarfiadau'r flwyddyn ddiwethaf,
3. yr heriau a'r cyfleoedd y gallai'r ymarferwyr fod yn eu hwynebu wrth sicrhau cynnydd dysgwyr yn y misoedd nesaf.

Yn ychwanegol, cyflwynwyd adnodd fideo i'r cyfranogwyr ar gyfer pob un o dri maes y sgyrsiau i danio'r drafodaeth a'u hysgogi i feddwl. Datblygwyd yr adnoddau fideo hyn gan arbenigwyr academaidd a chyn-ymarferwyr.

Cynhaliwyd y sgyrsiau ym mis Mawrth 2021, pan oedd disgyblion yn dechrau dychwelyd i'r ysgolion fesul cam. Byddai hwn wedi bod yn gyfnod pontio i lawer o ysgolion, gan gynnwys croesawu disgyblion iau yn ôl i ysgolion cynradd a rhai a oedd yn cychwyn ar flynyddoedd cymwysterau. Gallai cyd-destunau ehangach y sgyrsiau fod wedi llywio natur a ffocws y trafodaethau ym mhob sgwrs.

## Amcanion y Sgyrsiau

Amcanion cyffredinol y sgyrsiau oedd:

1. Rhoi amser a gofod i'r cyfranogwyr fyfyrio a meddwl sut rydym yn symud gyda'n gilydd allan o'r cyfnod presennol o darfu,
2. Annog yr ymarferwyr i fynd â'r hyn maent wedi'i drafod yn ôl i'w hysgolion a llywio eu hymagweddau lleol eu hunain at y materion hyn,
3. Llywio'r ymateb polisi cenedlaethol i fynd i'r afael ag anghenion dysgwyr, yr heriau mae ymarferwyr ac ysgolion yn eu hwynebu, ac wrth symud ymlaen tuag at y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Gofynnwyd i'r hwyluswyr ym mhob sgwrs gasglu nodiadau ynghyd hefyd, gan nodi'r prif bwyntiau a godwyd yn y trafodaethau. Diben hyn oedd casglu a rhannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu ar draws y sgyrsiau. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o'r themâu a'r materion a godwyd yn y nodiadau hynny. Lle y bo'n bosibl, mae'r gwaith dadansoddi yn ceisio canfod ac adlewyrchu'r iaith sydd wedi'i chynnwys yn y nodiadau.

Mae cyfyngiadau i'r dadansoddiad y mae'n bwysig eu nodi. Gyda'i gilydd, y mae'n bosibl nad yw'r sawl a gymerodd ran yn y sgyrsiau yn gyffredinol gynrychioliadol o'r holl ysgolion, lleoliadau a sefydliadau perthnasol eraill ledled Cymru. Ysgolion cynradd, er enghraifft, yw 79 y cant o'r holl ysgolion yng Nghymru. Cynrychiolwyr ysgolion cynradd a gymerodd ran yn y sgyrsiau oedd 71 y cant o'r holl gyfranogwyr a oedd yno ar ran ysgolion. Mae hyn yn awgrymu mai rhoi darlun a wna'r dadansoddiad hwn yn hytrach na rhoi adroddiad terfynol o farn, safbwyntiau a phrofiadau'r gymuned addysg yng Nghymru yn ei chyfanrwydd.

## Dod o Hyd i'r Ffordd drwy'r Adroddiad Hwn

Er mwyn cyfathrebu canfyddiadau'r dadansoddiad hwn, mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn rhoi trosolwg or themâu hollgyffredinol allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r sgyrsiau, gan gynnwys mewn trafodaethau am beth weithiodd yn dda, heriau a chyfleoedd wrth gynorthwyo dysgwyr, ac wrth feddwl am y dyfodol.
- Mae Adran 3 yn rhoi amlinelliad manylach o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o drafodaethau ynglŷn â beth weithiodd yn dda a pham.
- Mae Adran 4 yn nodi barn cyfranogwyr ynglŷn â heriau a chyfleoedd wrth gynorthwyo dysgwyr i fod yn barod i ddysgu.
- Mae Adran 5 yn nodi barn cyfranogwyr ynglŷn â heriau a chyfleoedd wrth gynorthwyo cynnydd dysgwyr.

- Mae’r Casgliadau yn cyflwyno trosolwg cyffredinol cryno o ganfyddiadau’r dadansoddiad.

# 2 Themâu Allweddol

Mae'r adran hon yn cyflwyno rhai o'r themâu allweddol a gododd droeon ar draws tri maes y sgyrsiau. Roeddynt yn nodweddion allweddol o drafodaethau'r ymarferwyr ynglŷn â beth weithiodd yn dda a pham; cynorthwyo parodrwydd i ddysgu; a chynorthwyo cynnydd dysgwyr.

Roedd y themâu hollgyffredinol hyn yn tynnu sylw at yr heriau yr oedd lleoliadau ac ysgolion wedi'u hwynebu dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn fwy cyffredinol, maent yn adlewyrchu pryderon a blaenoriaethau ymarferwyr a oedd yn y pen draw wedi llywio a ffurfio eu hymatebion i'r pandemig. Y maent hefyd yn enghreifftio'r rôl bwysig sydd gan ymarferwyr wrth gynorthwyo'r dysgwyr, a'r cynnydd mae lleoliadau ac ysgolion wedi'i wneud o dan amgylchiadau heriol.

**Crynodeb**

Roedd tair thema allweddol yn codi droeon ar draws y sgyrsiau. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr at y rhain ac fe'u codwyd ar draws tri maes y sgyrsiau. Roeddynt yn cynnwys:

- Pwysigrwydd a ffocws ar gefnogi **lles dysgwyr**,
- Cyflawni **dysgu ac addysgu** effeithiol, gan gynnwys o bell,
- Gwella'r **cyfathrebu â rhieni a'u hymgysylltiad** â dysg eu plentyn.

## 2.1 Lles Dysgwyr

Thema allweddol a nodwyd gan lawer o gyfranogwyr ar draws tri maes y sgyrsiau oedd pwysigrwydd cefnogi lles dysgwyr. Ar draws meysydd y sgyrsiau, eglurodd llawer o gyfranogwyr bod lles ehangach wedi dod yn flaenoriaeth allweddol a oedd yn llywio ymgysylltiad â'r dysgwyr a'u teuluoedd. Gyrrwyd hyn yn rhannol gan amrywiaeth o bryderon yn ymwneud ag effeithiau andwyol y cyfyngiadau symud a goblygiadau ehangach y pandemig ar iechyd a lles.

Roedd cyfranogwyr ar draws lleoliadau ac ysgolion yn nodi bod materion fel cynnydd mewn gorbryder, straen ac ynysigrwydd cymdeithasol, yn ogystal â llai o ryngweithio rhwng cymheiriaid a llai o weithgarwch corfforol, yn rhwystrau sylweddol sy'n wynebu'r dysgwyr. Roedd yn cael ei gydnabod bod profiadau dysgwyr yn amrywiol, a bod rhai yn ei chael yn anoddach nag eraill. Roedd amrywiaeth hefyd yn yr heriau y cyfeiriwyd atynt ac effeithiau'r pandemig ar ddysgwyr o wahanol oedrannau. Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd ffocws sylweddol ar draws meysydd y sgyrsiau ar bwysigrwydd cefnogi lles, yn awr ac i'r dyfodol, wrth i ddysgwyr ddychwelyd yn fwy rheolaidd i ysgolion a lleoliadau.

Nododd cyfranogwyr hefyd yr heriau o ran cefnogi lles dysgwyr o bell. I rai, roedd tarfiadau ar ddysgu ac addysgu wyneb yn wyneb wedi lleihau arwyddion sy'n aml yn gynnil y gall

ymarferwyr ddibynnu arnynt i ddeall a chefnogi lles dysgwyr, gan gynnwys arsylwi eu hwyliau cyffredinol. Roedd y mater hwn yn arbennig o bwysig i'r rhai sy'n nodi bod diogelu effeithiol wedi dod yn her sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd dysgu o bell yn golygu bod gofyn i'r ymarferwyr ystyried ffyrdd newydd i gefnogi lles yn effeithiol o bell.

Er yr heriau hyn, cyfeiriodd y cyfranogwyr at feysydd sylweddol o gynnydd. Myfyriodd llawer ar bwysigrwydd cefnogi lles, a sut roedd y pandemig wedi golygu bod angen mwy o ystyriaeth a ffocws o'r newydd ar ymagwedd holistig at ddysgu ac addysgu. Gan fyfyrio ar y 12 mis diwethaf, maes allweddol o gynnydd a nodwyd gan y cyfranogwyr oedd cryfhau cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol neu'r lleoliad. Roedd y sefyllfa wedi galluogi ymarferwyr i ddatblygu mwy o ddealltwriaeth o fywydau cartref y dysgwyr. Roedd mwy o ymgysylltu a chyfathrebu rhwng yr ymarferwyr a theuluoedd y dysgwyr, er enghraifft, wedi creu gofod ar gyfer ffyrdd newydd i ymwneud â lles dysgwyr ac ymateb iddo:

> *'Roedd galwadau ffôn rheolaidd â'r cartref mewn perthynas â lles, heb fod â ffocws academaidd nac ar bresenoldeb, yn golygu bod perthynas â theuluoedd wedi datblygu, a pho amlaf y gwnaed y galwadau hyn y mwyaf oedd y berthynas yn datblygu.'*
>
> Grŵp 10, 23ain Mawrth, Saesneg

Cyfeiriodd y cyfranogwyr at amryw enghreifftiau ymarferol o gefnogi lles o bell.

**Sesiynau Ailgydio a Lles**

Mae nifer o ysgolion a lleoliadau wedi ymgorffori sesiynau ailgydio a lles yn eu hamserlenni. Cyfeiriodd y cyfranogwyr at bwysigrwydd creu cyfleoedd i drafod materion ehangach y tu hwnt i ddysgu ac addysgu yn unig. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys sesiynau dyddiol, ddwywaith yr wythnos neu wythnosol i ystyried lles y dysgwyr a chaniatáu i'r ymarferwyr fonitro lles y dysgwyr. I gyflawni hyn, defnyddiodd yr ysgolion nifer o ddulliau gwahanol i ryngweithio â'r dysgwyr â'u teuluoedd, gan gynnwys galwadau ffôn neu ar-lein. Pwysleisiodd rhai bwysigrwydd casglu gwybodaeth o'r trafodaethau hyn fel y gallai unrhyw faterion, gan gynnwys pryderon ynghylch diogelu, gael eu monitro'n effeithiol dros amser.

**Lles yn Ystod y Diwrnod Ysgol**

Cyfeiriodd y cyfranogwyr hefyd at bwysigrwydd neilltuo amser yn ystod y diwrnod ysgol ar gyfer lles. Roedd rhai'n neilltuo amser yn y prynhawn i ganolbwyntio ar les, ac roedd eraill yn canolbwyntio ar les ar ddiwrnodau penodol, fel 'Dydd Mercher Lles'. Roedd enghreifftiau o weithgareddau'n cynnwys cynnal tiwtorialau lles ar-lein, gosod tasgau lles wythnosol, a darparu cyfleoedd i'r dysgwyr ddod at ei gilydd a chymdeithasu drwy gemau a gweithgareddau wedi'u harwain gan y dysgwyr. Cyfeiriodd eraill at ffrydio digwyddiadau lles yn fyw, gan ddefnyddio clipiau fideo yn arbennig i ddysgwyr iau, a defnyddio adnoddau o amryw ffynonellau, gan gynnwys yr Hwb lles.

Fodd bynnag, roedd cydlynu'r mathau yma o weithgareddau yn cyflwyno heriau i ysgolion a lleoliadau. Roedd y rhain yn dueddol o ymwneud â'r galwadau ychwanegol oedd ar ymarferwyr a staff wrth gyflawni darpariaeth lles ochr yn ochr â'r dysgu ac addysgu. Roedd heriau hefyd o ran dod o hyd i gydbwysedd rhwng dysgu ac addysgu, a hybu lles:

> *'Mae dod o hyd i'r cydbwysedd rhwng yr ochr les a'r ochr academaidd yn heriol. Mae ysgolion yn llwyr ymwybodol mai lles yw eu prif flaenoriaeth ond bydd y pwysau mawr ar ysgolion yn dal i fod yno ar yr ochr academaidd e.e. asesu disgyblion, Cwricwlwm i Gymru, Estyn'.*
>
> Grŵp 1, 10fed Mawrth, Cymraeg

Roedd rhai wedi dod o hyd i ffyrdd o amgylch goblygiadau capasiti o ran canolbwyntio mwy ar les. Aeth un cyfranogwr ati, er enghraifft, i geisio ymgorffori mwy o ffocws ar les yn y cwricwlwm. Nododd cyfranogwr arall iddynt neilltuo prynhawniau i staff ganolbwyntio ar les, gan gynnwys gwneud galwadau ffôn lles. Wrth fanteisio ar gymorth gan gyfoedion, eglurodd un cyfranogwr sut roeddynt wedi gosod dysgwyr mewn grwpiau lles yn hytrach na grwpiau gallu er mwyn creu diwylliant cadarnhaol yn ymwneud â lles yn yr ysgol.

O ran cefnogi lles dysgwyr yn effeithiol mewn lleoliadau ac ysgolion, nododd y cyfranogwyr ffactorau pwysig. Cyfeiriodd rhai at bwysigrwydd dulliau ysgol gyfan, gan gynnwys meithrin ac annog cydweithio wrth ddylunio a chyflawni darpariaeth lles. Cyfeiriodd eraill at bwysigrwydd manteisio ar gymorth gan asiantaethau a sefydliadau eraill oddi mewn i bartneriaethau effeithiol. Nodwyd hyn yn benodol wrth gyfeirio at gefnogi dysgwyr sy'n benodol o fregus, gan gynnwys plant sy'n gerbyn gofal a rhai sy'n profi pryderon ynglŷn â diogelu neu anfantais arbennig o lym. Nododd y cyfranogwyr hefyd mor bwysig oedd cynorthwyo ymarferwyr ac aelodau eraill o staff a oedd yn ymwneud â chyflawni darpariaeth lles. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau nad yw llwythi gwaith yn ormodol, a bod eu hymdrechion yn cael eu cydnabod gan yr ysgol neu'r gymuned.

Er gwneud cynnydd, roedd y cyfranogwyr yn pryderu ynglŷn â lles dysgwyr i'r dyfodol. Roedd pryderon bod effeithiau negyddol y tarfu ar les yn parhau ac yn esblygu. Nodwyd bod gorbryder ymysg dysgwyr a rhieni, er enghraifft, yn benodol o lym, yn arbennig wrth i ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol ac mewn perthynas ag asesu. Roedd pryderon ynghylch effeithiau'r tarfu ac ynysigrwydd ar les yn y tymor hwy, gan gynnwys ar berthynas rhwng cyfoedion, lefelau hyder is, ac effeithiau amser gormodol ar sgrin.

O'r safbwyntiau hyn, roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai angen i'r ffocws ar les barhau. Roedd rhai'n teimlo y byddai'r cwricwlwm newydd, sydd â mwy o ffocws ar ddatblygiad holistig y dysgwyr, yn werthfawr wrth sicrhau ymrwymiad i les:

> *'Mae cynnig synnwyr o obaith i blant oddi mewn i'r cwricwlwm ysgol yn gydnaws iawn â phedwar diben addysg. Roedd y plant mwyaf hyderus, hyd yn oed, yn ymddangos yn llai hyderus ar ôl y cyfnod clo. Ailennill synnwyr o gymuned yn gyntaf, cyn symud ymlaen'*
>
> Grŵp 22, 18fed Mawrth, Saesneg

## 2.2 Dysgu ac Addysgu

Thema hollgyffredinol allweddol arall ar draws y sgyrsiau oedd cyflawni dysgu ac addysgu effeithiol. Roedd y tarfu a wynebai ysgolion a lleoliadau yn golygu bod gofyn i'r ymarferwyr addasu tuag at fwy o ddarpariaeth dysgu digidol a chyfunol. Roedd hyn yn cyflwyno nifer o heriau, gan gynnwys o ran datblygu'r seilwaith, y sgiliau a'r prosesau sydd eu hangen i bontio yn sydyn i fwy o addysgu ar-lein. Siaradodd y cyfranogwyr yn aml am brofiad llawer o ymarferwyr o orfod dysgu'n gyflym ers mis Mawrth 2020.

Roedd effaith y tarfu ar gynnydd dysgwyr yn amlwg yn y myfyrdodau ar ddysgu ac addysgu. Roedd hyn yn cynnwys cynnal ymgysylltiad y dysgwyr o bell. Nododd rhai fod ymgysylltu â dysgwyr o bell yn galw am ddulliau dysgu ac addysgu sylweddol wahanol. Roedd hyn yn cynnwys addasu deunyddiau a chynlluniau gwersi, yn ogystal ag ailystyried yr hyn allai gael ei gyflawni yn realistig.

Roedd pryderon sylweddol pellach mewn perthynas â'r rhwystrau'r oedd rhai dysgwyr yn eu hwynebu wrth gael mynediad at ddysgu gartref. Ystyriwyd mai amrywiol oedd mynediad at offer digidol a sgiliau'n ymwneud â'r offer yma, ac ni allai rhai dysgwyr a'u teuluoedd eu defnyddio'n effeithiol i gynorthwyo'r dysgu. Roedd hyn yn cyflwyno heriau wrth gynorthwyo rhai dysgwyr, ac roedd pryderon y byddai hyn yn gwaethygu ac atgyfnerthu anghydraddoldebau mewn perthynas â dysgu a chynnydd.

Nododd y cyfranogwyr sut roeddynt wedi mynd i'r afael â phontio i ffurfiau digidol, ar-lein o ddysgu ac addysgu. Ffactor allweddol yn yr ymatebion oedd pwysigrwydd sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau a'r hyder angenrheidiol i fanteisio ar offer addysgu digidol. O'r safbwyntiau hyn, roedd darparu cyfleoedd i ymarferwyr ddatblygu eu sgiliau yn sylfaen i bontio'n effeithiol i ddysgu ar-lein a dysgu cyfunol:

> *'Drwy hyfforddiant, roedd y staff yn fwy hyderus ar ddysgu cyfunol a defnyddio apiau / rhith-blatfformau. Rhoddwyd yr offer i'r staff gynorthwyo dysgu gartref yn ogystal â dysgu cyfunol yn yr ystafell ddosbarth. Darparwyd arweiniad i rieni. Roedd y dysgu cyfunol yn nhymor yr hydref wedi paratoi'r disgyblion ar gyfer dysgu yn y cartref yn ystod y cyfnod clo.'*
>
> Grŵp 4, 18fed Mawrth, Saesneg

Roedd pontio i ffurfiau dysgu ac addysgu ar-lein hefyd wedi arwain at nifer o gyfleoedd. Nododd y cyfranogwyr fod nodweddion mewn offer addysgu ar lein a oedd yn galluogi ffurfiau newydd o gydweithio, gan gynnwys rhwng dysgwyr a'u cyfoedion, a rhwng dysgwyr a'u rhieni neu ofalwyr. Roedd rhai cyfranogwyr hefyd yn nodi cyfleoedd i gydweithio mwy rhwng ymarferwyr, gan gynnwys ar ddatblygu deunyddiau.

Agwedd a oedd yn amlwg yn y nodiadau ar y sgyrsiau oedd arloesi ym maes dysgu ac addysgu ei hun. Cafwyd enghreifftiau o leoliadau ac ysgolion yn cymysgu cyfleoedd dysgu cydamserol ac anghydamserol, gyda gwersi byw yn cael eu trefnu ochr yn ochr â deunyddiau, gwersi wedi'u recordio a gweithgareddau y gallai'r dysgwyr weithio drwyddynt yn eu hamser eu hunain. Roedd hyn oll yn bosibl yn sgil platfformau ac offer dysgu ar-lein. Yn y sgyrsiau,

cyfeiriodd y cyfranogwyr at amrywiaeth eang o feddalwedd a oedd yn eu cynorthwyo i bontio i ddysgu ac addysgu ar-lein a chyfunol:

> *'Roedd llawer o'u cynnwys eisoes ar-lein ac roeddynt yn ei chael yn hawdd symud ymlaen i ddysgu yng nghyfnod COVID. Hyfforddwyd y staff i ddefnyddio Google Classrooms a Jamboard a bwrdd gwyn rhyngweithiol wedi'i integreiddio â Google Meets. Gwersi byw a ddefnyddiwyd yn bennaf ar Google Meets gyda Google Classrooms ac roedd hynny'n gweithio'n dda. Google Docs a rhannu gwaith o sesiynau ar-lein, roedd rhannu eu sgriniau (myfyrwyr) yn gweithio'n dda'.*
>
> Grŵp 9, 18fed Mawrth, Saesneg

**Offer a Phlatfformau Addysgu Ar-lein**

Manteisiodd y cyfranogwyr ar amrywiaeth eang o offer a nodweddion i gynorthwyo'r dysgu ac addysgu, gan gynnwys Hwb, y platfform cenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys offer cyfathrebu cyffredinol fel Zoom a Teams ar gyfer gwersi byw, lle mae ystafelloedd trafod yn darparu cyfleoedd ychwanegol i weithio mewn grwpiau llai. Roeddynt hefyd yn nodi platfformau wedi'u teilwra mwy, fel Google Classrooms, sy'n cyfuno gwersi byw gyda chynnwys a deunyddiau eraill. Bu rhai'n defnyddio platfformau sy'n ymestyn nodweddion i hybu mwy o ymgysylltiad gan rieni a gofalwyr, fel ClassDojo. Platfform arall y cyfeiriwyd ato'n aml oedd Seesaw, sy'n galluogi ymarferwyr i baratoi cynlluniau gwersi a darparu adborth. Mae'r apiau a'r offer ar-lein hyn, ymysg eraill, wedi caniatáu i'r ymarferwyr fod yn greadigol yn y ffyrdd y maent yn ymgysylltu â'r dysgwyr.

**Adnoddau a Deunyddiau Ar-lein**

Yn ychwanegol at blatfformau a meddalwedd, meddai'r ymarferwyr eu bod hefyd yn manteisio ar amrywiaeth eang o gynnwys, adnoddau a deunyddiau ar-lein. Roedd hyn yn cynnwys mwy o ddefnydd o fideos oedd yn bodoli eisoes ac elfennau eraill o gynnwys ar-lein.

Gan fyfyrio ar y 12 mis diwethaf, nododd y cyfranogwyr nifer o lwyddiannau'n ymwneud â dysgu ac addysgu. Roedd rhai'n teimlo mwy o ryddid a gallu i ddefnyddio dulliau newydd o ddysgu ac addysgu, gan gynnwys wrth siapio'r cwricwlwm. Roedd y rhyddid hwn yn caniatáu i'r ymarferwyr ganolbwyntio o'r newydd ar yr hyn sy'n bwysig a thorri'r cwricwlwm yn ôl i hynny wrth bontio i fwy o ddarpariaeth ar-lein. Cynorthwywyd hyn wrth i'r ymarferwyr ddatblygu eu sgiliau, rhannu'r hyn a ddysgant, a myfyrio a gwella'r ddarpariaeth.

Roedd rhai'n teimlo y byddent yn parhau i ddefnyddio elfennau o ddysgu cyfunol yn y dyfodol. O'r safbwyntiau hyn, roedd manteision i'r dulliau dysgu ac addysgu newydd, yn benodol mewn perthynas â darpariaeth gyfunol a'r cyfleoedd i gynnwys rhieni a gofalwyr yn fwy ystyrlon yn nysg eu plant. Awgrymodd hyn y gallai'r pandemig fod wedi cyflymu'r defnydd o dechnoleg ddigidol ym maes dysgu ac addysgu:

*'Cyn y cyfnod clo, cyfyngedig oedd y defnydd o dechnoleg o oedd ar gael i ysgol uwchradd. Ni chaniatawyd ffonau symudol yn y gwersi yn flaenorol. Ond mae ffonau symudol bellach yn cael eu defnyddio yn y gwersi a chaiff y disgyblion eu hannog i 'ddod â'ch dyfais eich hun i'r ysgol'.'*

Grŵp 20, 23ain Mawrth, Saesneg

Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon i'r dyfodol. Thema allweddol oedd cynorthwyo'r dysgwyr i lywio drwy'r tarfu y maent wedi'i wynebu a'i oresgyn. Dyma'r achos yn arbennig ar gyfer dysgwyr a oedd wedi profi rhwystrau sylweddol i ddysgu dros y 12 mis diwethaf. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y bu'r dysgu a chynnydd yn amrywiol iawn, ac y byddai hyn wedi achosi heriau sylweddol i ymarferwyr er mwyn cynorthwyo'r holl ddysgwyr yn effeithiol.

## 2.3 Ymgysylltiad Rhieni

Yn ogystal â lles dysgwyr a dysgu ac addysgu, thema allweddol arall a gododd gan y cyfranogwyr oedd ymgysylltiad rhieni. Cyfeiriodd rhai cyfranogwyr at y cyfraniad pwysig roedd rhieni a gofalwyr wedi'i wneud o ran cefnogi addysg eu plant dros y 12 mis diwethaf. Teimlai llawer fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran sefydlu dulliau cyfathrebu mwy cadarn a datblygu perthynas fwy cadarnhaol â rhieni. Roedd llawer yn teimlo bod hyn yn gyflawniad sylweddol.

Ni fu hyn heb ei heriau, serch hynny. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod ymgysylltiad rhieni'n ychwanegu galwadau ychwanegol ar lwythi gwaith yr ymarferwyr a oedd eisoes wedi'u hymestyn yn ormodol. Roedd eraill yn teimlo bod gwahaniaethau yn yr ymgysylltiad yn fater sylweddol, gyda rhai rhieni'n anoddach ymgysylltu â hwy, ac eraill â chanddynt ddisgwyliadau afrealistig ynglŷn â'r hyn allai ymarferwyr ei gyflawni. Mewn rhai achosion, bu'n anodd mesur disgwyliadau rhieni, ac roedd dod o hyd i gydbwysedd rhwng faint o gyfathrebu i'w wneud, a pha mor aml, yn bwysig. Roedd cyfranogwyr eraill yn teimlo lefel ychwanegol o graffu gan rieni a gofalwyr.

Er yr heriau hyn, bu'r pandemig yn ysgogiad i ddod o hyd i ffyrdd newydd i ymgysylltu â rhieni. Teimlwyd bod ymgysylltiad gan rieni'n dda yn benodol lle'r aeth ysgolion neu leoliadau ati'n rhagweithiol i gyfathrebu â rhieni, a lle'r oedd yr ymgysylltiad wedi'i gynhyrchu ar y cyd â hwy. Nododd rhai cyfranogwyr eu bod wedi cynnal sgyrsiau â rhieni ynglŷn â sut orau i'w cynorthwyo, er enghraifft. Roedd hyn wedi galluogi'r ymarferwyr i deilwra eu cymorth a chanfod beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio:

*'Mae dysgu gartref wedi esblygu gan ei fod wedi'i ddylanwadu gan adborth y rhieni wrth iddynt ofyn am fwy o gyfleoedd i siarad gyda dysgwyr eraill mewn cyfleoedd dysgu cydamserol.'*

Grŵp 7, 10fed Mawrth, Saesneg

Aeth ymatebwyr eraill yn bellach, gan gynnwys darparu tiwtorialau i rieni a gofalwyr a mathau eraill o gymorth:

**Dysgu a Chymorth Rhwng Cymheiriaid**

Defnyddiodd ychydig gyfranogwyr y cyfle i ddod â rhieni a gofalwyr ynghyd i rannu a chefnogi ei gilydd mewn perthynas ag addysgu gartref. Roedd hyn yn cynnwys rhieni'n rhannu awgrymiadau ar ddysgu gartref, tiwtorialau i gynorthwyo dysgu gartref, a gohebiaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau rhieni, gan gynnwys manteisio ar adnoddau ac offer digidol.

Wrth feddwl am y dyfodol, nododd rhai cyfranogwyr bwysigrwydd cynnal ac ehangu gwelliannau ym maes ymgysylltiad rhieni. Roedd pryderon am fynd i'r afael â gwahaniaeth yn ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys estyn allan yn effeithiol a chynorthwyo rhieni a gofalwyr sydd â llai o ymgysylltiad. Gyda'i gilydd, fodd bynnag, teimlwyd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cynnwys rhieni i gefnogi dysg eu plant.

Mae'r adroddiad yn troi'n awr i archwilio'n fanylach gynnwys a themâu sylweddol a gododd o bob un o dri maes y sgyrsiau.

# 3 Beth Weithiodd yn Dda a Pham

Ym mhob sgwrs, gofynnwyd i'r cyfranogwyr drafod beth weithiodd yn dda o ran dysgu ac addysgu ac, yn bwysig, pam ei fod yn gweithio. I ychwanegu mwy o ddyfnder, fe'u hanogwyd hefyd i drafod unrhyw heriau sylweddol yr oeddynt wedi'u hwynebu a myfyrio ar sut y gwnaethant oresgyn y materion hyn.

**Crynodeb**

O ran beth weithiodd yn dda dros y flwyddyn ddiwethaf, ymysg themâu eraill, nodwyd y canlynol gan y cyfranogwyr:

- Manteisio ar offer digidol i gynorthwyo dysgu gartref. Golygai hyn fod gofyn i'r ymarferwyr ddatblygu dulliau addysgeg a chynnwys cwricwlwm newydd ac arloesol.
- Gwella'r cyfathrebu rhwng ymarferwyr, dysgwyr a rhieni.
- Roedd rhai cyfranogwyr hefyd yn teimlo y bu mwy o gydweithio, arloesi a dysgu rhwng staff.

Cyfeiriodd y cyfranogwyr at nifer o themâu trawsbynciol a oedd yn cynorthwyo ymarfer effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys:

- Datblygu amgylcheddau a diwylliannau cefnogol a chydweithredol rhwng staff, yn ogystal â'r gwaith caled a'r ymrwymiad yr oeddynt wedi dangos.
- Roedd cydnabyddiaeth o bwysigrwydd rhoi i ymarferwyr a staff yr hyder a'r sgiliau i fanteisio'n effeithiol ar gyfleoedd dysgu ar-lein a dysgu cyfunol.

## Defnyddio Offer Ar-lein

Thema allweddol a gododd gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr ynghylch beth weithiodd yn dda oedd y defnydd helaethach o offer a phlatfformau dysgu ac addysgu ar-lein. Mae pontio i ddarpariaeth ar-lein wedi dadorchuddio rhai offer defnyddiol i gynorthwyo'r dysgwyr i ddysgu o bell. Fel a nodwyd yn flaenorol, roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o blatfformau a meddalwedd, gan gynnwys Google Classroom, SeeSaw, Google Forms a Zoom. Y farn oedd bod dulliau ar-lein a'r defnydd o amryw feddalwedd hefyd wedi gwella ymgysylltiad yn achos rhai dysgwyr.

Ffactor allweddol o wneud y defnydd gorau o'r offer oedd ar gael oedd pwysigrwydd datblygu sgiliau a hyder staff. O'r safbwyntiau hyn, roedd darparu cyfleoedd i ymarferwyr ddatblygu eu sgiliau yn rhoi sylfaen i bontio'n effeithiol i ddysgu ar-lein a dysgu cyfunol. Teimlwyd bod hyn yn hanfodol i bontio i drefniadau addysgu newydd, a lleihau effaith y tarfu ar ddysgu.

## Cyfathrebu

Nododd y cyfranogwyr hefyd fanteision ffyrdd newydd o weithio er mwyn cynorthwyo cyfathrebu helaethach a mwy effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys gofyn i rieni am adborth ar sut i gynorthwyo plant yn well ar-lein ac o bell. Mae gwrando ar adborth rhieni wedi helpu'r ysgolion i ddatblygu'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig a gwella. O ganlyniad i ddulliau cyfathrebu newydd, mae llawer o rieni hefyd wedi dod yn fwy ymwybodol o addysg eu plant ac ymwneud mwy â hi. Mae camau arloesol fel galwadau ailgydio a lles wedi dod â rhieni ac ymarferwyr yn agosach, gan gryfhau perthynas bwysig.

Er mwyn cyfathrebu'n fwy effeithiol, yn arbennig â rhieni, cyfeiriodd y cyfranogwyr at bwysigrwydd bod yn rhagweithiol er mwyn ceisio asesu disgwyliadau a dewisiadau. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu a chyd-ddylunio dulliau cyfathrebu â rhieni. Roedd yr ymarferwyr yn teimlo bod hyn yn ddull effeithiol i ganfod cydbwysedd o ran amlder a chynnwys y cyfathrebu, ac o ran bodloni disgwyliadau rhieni yn effeithiol.

## Sgiliau

Barn gyffredin arall oedd pwysigrwydd sgiliau ac arbenigedd penodol mewn perthynas â chyflawni a chael mynediad at ddysgu gartref. O'r safbwyntiau hyn, bu gofyn i'r ymarferwyr a'r dysgwyr ddatblygu sgiliau ac arbenigedd newydd yn gyflym er mwyn cynorthwyo'r addysgu'n effeithiol ar draws y broses ddysgu. Roedd hyn yn cynnwys sgiliau digidol, cynorthwyo'r dysgwyr i wneud cynnydd yn effeithiol o bell, cynorthwyo dysgu gwahaniaethol ar-lein, darparu cyfleoedd dysgu ar-lein sy'n tynnu'r dysgwyr i mewn, gan gynnwys dysgu cydamserol ac anghydamserol, ac wrth ddarparu adborth effeithiol.

Pwysleisiodd y cyfranogwyr werth a phwysigrwydd cyfleoedd i ymarferwyr gael mynediad i ddatblygiad proffesiynol parhaus a datblygu sgiliau staff. Eglurodd un cyfranogwr bwysigrwydd asesu sgiliau a hyder staff a darparu mwy o gymorth wedi'i deilwra:

> *'Datblygu sgiliau staff er mwyn gwneud y defnydd gorau o TGCh – cafodd hyn ei oresgyn drwy anfon holiaduron i staff ac ymateb i anghenion drwy ddarparu hyfforddiant penodol'.*
>
> Grŵp 4, 23ain Mawrth, Cymraeg

Roedd pwysigrwydd sgiliau yn berthnasol i ddysgwyr a rhieni, gan ddarparu llwybrau iddynt i adeiladu eu hyder eu hunain a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu'n effeithiol â dysgu ar-lein neu ddysgu cyfunol.

## Adborth

Thema fwy ymylol oedd cyfleoedd a dulliau newydd i ddarparu adborth ac asesu. Mae dysgu ac addysgu ar-lein, er enghraifft, wedi cyflwyno ffyrdd newydd i ddarparu adborth. Mae'r ffocws mwy ar gyfathrebu digidol yn golygu mai haws yw rhannu adborth a gwybodaeth asesu ar gynnydd dysgwyr, yn arbennig â rhieni. Cyfeiriodd y cyfranogwyr at ddatblygu dulliau asesu

newydd ar gyfer dysgu gyda ffocws o'r newydd ar wirio dealltwriaeth y dysgwyr a nodi bylchau.

Er mwyn darparu adborth mwy effeithiol ar draws dysgu ar-lein a dysgu cyfunol, cyfeiriodd ychydig gyfranogwyr at bwysigrwydd canfod cydbwysedd o ran faint o adborth a roddir a chynnwys yr adborth. Diben hyn oedd sicrhau na fyddai darparu adborth yn gorlwytho'r ymarferwyr. Yn gysylltiedig â'r arsylwad hwn, roedd eraill yn teimlo bod gweithredu prosesau effeithlon ar gyfer rhannu adborth yn bwysig er mwyn cyfyngu ar yr effaith ar lwythi gwaith yr ymarferydd. Roedd hyn yn cynnwys gwneud defnydd llawn o offer digidol sy'n cynorthwyo profiadau dysgu mwy cyflawn drwy nodweddion sy'n galluogi adborth, fel SeeSaw a ClassDojo.

## Trefniadau Gweithio Staff

Barn fwy cyffredin oedd yr agweddau cadarnhaol ar drefniadau gweithio newydd i ymarferwyr. Mae trefniadau newydd wedi caniatáu mwy o hyblygrwydd yn y ffordd mae staff yn gweithio ac wedi annog gwell cydweithio a chyfathrebu ymysg staff i ddatrys problemau a chanfod atebion. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod rheidrwydd a chyflymder y newid wedi meithrin diwylliant o fod yn agored a chydweithio rhwng staff, gan annog pawb i feddwl y tu allan i'r bocs er mwyn cynorthwyo'r dysgwyr.

Er mwyn cynorthwyo staff i weithio'n effeithiol, cyfeiriodd rhai cyfranogwyr at bwysigrwydd creu amgylcheddau gweithio cefnogol ac agored. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol o'r heriau sy'n wynebu ymarferwyr a staff, gan gynnwys o ran eu lles eu hunain, wrth iddynt fynd i'r afael â'r heriau a gododd yn sgil y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys y tarfu ar eu bywydau eu hunain yn ogystal â'r disgwyliadau uwch ar gynorthwyo dysgwyr. Roedd pryderon yn amlwg ynglŷn â lefelau uchel o lwyth gwaith, ac roedd rhai'n teimlo bod y capasiti i ymateb yn effeithiol yn annigonol. Ystyriwyd mai allweddol oedd sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi, gan gynnwys o ran sicrhau eu lles eu hunain.

Yn ymarferol, nododd rhai cyfranogwyr bod rhoi mwy o amser i les staff yn bwysig, gan gynnwys darparu cyfleoedd i ddod ynghyd i gefnogi ei gilydd. Cyfeiriodd eraill at bwysigrwydd cydnabod yr heriau'r oedd ymarferwyr a staff yn eu hwynebu, a'r gwaith yr oeddynt yn ei wneud. Roedd hefyd enghreifftiau ymarferol o ysgolion a lleoliadau yn ceisio cyfuno gwybodaeth, rhannu profiadau a chefnogi'i gilydd, gan gynnwys drwy rannu deunyddiau a gwersi wedi'u recordio.

## Ymgysylltiad Dysgwyr

Yn sgil ffyrdd newydd o ddysgu ac addysgu, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod rhai dysgwyr wedi dod yn fwy annibynnol. Roedd y rhain yn cynnwys dysgwyr yn cymryd mwy o berchnogaeth o'u dysgu, yn ogystal â bod y trefniadau yn fwy addas i rai dysgwyr a oedd yn flaenorol yn ei chael yn anodd ymgysylltu yn y dosbarth. Roedd mwy o ddibyniaeth ar ddysgu hunangyfeiriedig hefyd wedi rhoi mwy o gyfle i rai dysgwyr wneud penderfyniadau am eu dysgu eu hunain. Cyfeiriwyd hefyd at enghreifftiau o ddulliau cydweithio ar-lein rhwng dysgwyr, gan gynnwys arbrofi ag addysgu rhwng cyfoedion.

Ar y llaw arall, roedd ychydig yn teimlo bod trefniadau dysgu wedi lleihau ymgysylltiad ac annibyniaeth. Mae rhai ymarferwyr wedi awgrymu bod rhai dysgwyr, ers dychwelyd i'r ysgol, yn fwy dibynnol, bod arnynt angen mwy o amser a sicrwydd gan oedolion, a bod eu sgiliau dysgu annibynnol wedi llithro'n ôl. Roedd hyn yn cynnwys anhawster canolbwyntio a chynnal sylw ymysg rhai dysgwyr wrth ddysgu ar-lein, ac yn sgil hynny derbyn gwaith cartref oddi wrthynt. Roedd rhai'n teimlo bod amrywiaeth amlwg sylweddol mewn lefelau ymgysylltiad oddi mewn i wahanol garfannau a dosbarthiadau ac ar eu traws, a bod hyn yn creu heriau ychwanegol wrth ddarparu cymorth wedi'i deilwra mwy.

Wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn, nododd cyfranogwyr eu bod wedi llwyddo i sefydlu prosesau i nodi a chynorthwyo dysgwyr mwy datgysylltiedig. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio cymwysiadau arloesol ac offer dysgu cyfunol, fel defnyddio sesiynau wedi'u recordio ymlaen llaw.

## Ffocws ar Les

Fel a nodwyd yn flaenorol, thema a gododd droeon oedd pwysigrwydd cefnogi lles. Mae'r 12 mis diwethaf wedi gweld mwy o ffocws yn cael ei roi ar les, gan gynnwys i ddysgwyr ond hefyd i staff. Nododd llawer o gyfranogwyr bod yr ysgolion wedi dod yn fwy ymwybodol o les dysgwyr a staff. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod lles wedi dod yn brif flaenoriaeth i'r ysgolion a'i fod yn ganolog i benderfyniadau, gan gynnwys mewn perthynas â dysgu ac addysgu.

Yn y cyd-destun hwn, roedd y ffocws ar les wedi galluogi ymarferwyr i adeiladu partneriaethau cryfach â rhieni ac wedi annog ysgolion i ymestyn allan at ddysgwyr a'u teuluoedd er mwyn cynnig cefnogaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys sgyrsiau dal i fyny ar les, mwy o ffocws ar les yn y cwricwlwm, a ffocws ar les staff a chydbwysedd bywyd a gwaith. Roedd argymhellion hefyd ynglŷn â meddalu rhywfaint o'r iaith ynghylch dysgu ac addysgu. Roedd hyn yn cynnwys peidio â chyfeirio at darfiadau a'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc fel 'dysgu a gollwyd'; roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod hynny'n cynyddu'r pwysau a'r gorbryder sydd gan ddysgwyr a'u teuluoedd.

## Cydbwysedd Bywyd a Gwaith

Thema fwy ymylol oedd pwysigrwydd sicrhau bod gan ymarferwyr a staff gydbwysedd rhwng eu gwaith a'u hymrwymiadau ehangach y tu hwnt i'r ysgol. Cyfeiriodd rhai at fanteision trefniadau gweithio newydd, gan gynnwys llai o amser cymudo, a gafodd effaith gadarnhaol ar gydbwysedd bywyd a gwaith. Ar y llaw arall, nododd eraill fod yr her o fethu â gwahaniaethu rhwng y cartref a'r gwaith yn effeithio'n negyddol arnynt, ynghyd â disgwyliadau ychwanegol ar eu hamser, gan gynnwys cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni'n hwyr gyda'r nos. Roedd rhai ymarferwyr hefyd yn cyfeirio at orfod canfod cydbwysedd rhwng pwysau bywyd gartref, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r pandemig fel gofal plant.

Wrth fynd i'r afael â'r materion hyn, cyfeiriodd y cyfranogwyr yn ôl at bwysigrwydd creu amgylcheddau a diwylliannau gweithio cefnogol ac agored.

### Cynorthwyo Rhieni

Fel a nodwyd yn flaenorol, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod llawer o rieni bellach yn ymwneud mwy ag addysg y dysgwyr. Maent yn fwy ymwybodol o fylchau dysgu eu plant, eu targedau a'u blaenoriaethau. Mae trefniadau gweithio newydd wedi eu gwneud yn haws darparu mwy o adborth ar gynnydd y dysgwyr i'r rhieni, ac yn fwy rheolaidd. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod y rhieni bellach mewn gwell sefyllfa i gynorthwyo'r dysgwyr ac mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni wedi gwella. Roedd eraill yn teimlo, o ganlyniad i hyn, bod gan rieni fwy o barch at athrawon a mwy o gydnabyddiaeth ohonynt. Roedd rhai'n teimlo bod y cymorth ychwanegol a ddarparwyd gan rai rhieni wedi galluogi'r dysgwyr i wneud cynnydd yn gyflymach.

## 3.1 Pam ei fod wedi gweithio?

Yn yr ymatebion, roedd hefyd themâu trawsbynciol yn nodi sut bu'r dysgu ac addysgu yn effeithiol. Mae'r adran hon yn manylu ar rai o'r ffactorau ac egwyddorion allweddol a alluogodd yr ymarferwyr i fynd i'r afael â heriau'r flwyddyn ddiwethaf.

### Parodrwydd Staff

Thema allweddol a godwyd gan y cyfranogwyr oedd pwysigrwydd ysgogiad ac ymgysylltiad staff. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y bu'r staff yn barod i fynd yr ail filltir wrth ymateb i anghenion y dysgwyr ac wrth ddatblygu eu sgiliau eu hunain. Roedd y staff wedi manteisio ar ddatblygiad proffesiynol a dysgu sgiliau newydd mewn perthynas â dulliau ymgysylltu digidol, er enghraifft. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo eu bod hefyd wedi mentro, arbrofi â dulliau newydd, a bod yn ymaddasol ac ymatebol i'r heriau'r oeddynt yn eu hwynebu. O'r safbwyntiau hyn, roedd cynnydd wedi'i wneud ar sail eu hymrwymiad a'u gwaith caled.

### Staff yn Gweithio fel Tîm

Mae staff ysgolion hefyd wedi bod yn cydweithio'n effeithiol, a hynny wedi'i yrru gan synnwyr mwy cyffredinol o gydsafiad a ddaeth i'r amlwg ar draws y sector. Mae mwy o barodrwydd ymysg staff i rannu profiadau, trafod heriau, a chwilio am atebion. Drwy gamau arloesol fel digwyddiadau rhannu, cyfarfodydd a sesiynau hyfforddiant, cafodd staff eu hannog i rannu'r hyn a ddysgant yn ogystal â rhannu adnoddau, ac mae hynny wedi golygu llai o ddyblygu ymdrechion.

### Gwell Cyfathrebu

Thema allweddol arall oedd gwell cyfathrebu, rhwng staff ac ymarferwyr a rhieni. Mae'r trefniadau gweithio newydd wedi rhoi mwy o ffocws a sylw i gyfathrebu, yn arbennig â rhieni, gan gynnwys gwella'r cynnwys a'r amlder. Nododd yr ymatebwyr hefyd y capasiti a'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i gynnal cyswllt rheolaidd â'r dysgwyr a'u teuluoedd i sicrhau ymgysylltiad. Roedd rheidrwydd y sefyllfa hefyd wedi gwella'r cyfathrebu rhwng athrawon a rhieni; mater a fu'n her yn draddodiadol.

## Partneriaethau Cryfach

Thema fwy ymylol oedd pwysigrwydd partneriaethau wrth ddarparu cymorth effeithiol a chydlynol i'r dysgwyr. Roedd rhai cyfranogwyr wedi tynnu sylw at bartneriaethau newydd a chryfach a ddaeth i'r amlwg rhwng staff, ysgolion a rhieni, a rhwng ysgolion ac asiantaethau allanol. Mae partneriaethau presennol wedi'u cryfhau gan y parodrwydd i gydweithio a chanfod atebion, yn arbennig o ran cynorthwyo dysgwyr mwy bregus.

## Adnabod Plant Bregus

Ffactor pwysig arall mewn perthynas â chynorthwyo dysgwyr mwy bregus oedd addasu prosesau a gweithdrefnau er mwyn nodi materion posibl. Elfen allweddol o'r cymorth fu pwysigrwydd prosesau effeithiol i adnabod dysgwyr a allai fod yn fregus a darparu cymorth pwrpasol wedi'i deilwra. Er y bu heriau, nododd yr ymatebwyr y llwyddodd y staff i addasu i ffyrdd newydd o weithio er mwyn adnabod plant a allai fod yn fregus i sicrhau y gallant gael mynediad i ddysgu.

## Cynorthwyo Rhieni

Fel a nodwyd yn flaenorol, nododd y cyfranogwyr y rôl bwysig y mae rhieni wedi'i chwarae wrth gynorthwyo'r dysgu ac addysgu. Er mwyn cynorthwyo'r rhieni, cyfeiriodd y cyfranogwyr at gamau arloesol fel cynnal gweithdai ar sut y gallant annog eu plant i ddysgu ac addysgu. Wrth annog ymgysylltiad, cyfeiriodd rhai at bwysigrwydd sicrhau bod lleisiau'r rhieni'n cael eu cynnwys a'u clywed wrth wneud penderfyniadau.

## Dulliau Arloesol

Roedd rheidrwydd a brys y sefyllfa'n golygu bod gofyn i ymarferwyr ac ysgolion addasu ac arloesi. Gyda ffocws cynyddol ar les, creadigrwydd ac annibyniaeth, nododd yr ymatebwyr yr agweddau cadarnhaol ar y trefniadau gweithio newydd. Roedd gofyn i'r ysgolion fod yn fwy parod i newid a mynd i'r afael â hynny, yn arbennig wrth brofi ffiniau'r hyn sy'n bosibl gydag offer digidol. Y mae hefyd wedi annog mwy o ymgysylltiad a defnydd o ddeunyddiau ac adnoddau digidol sydd ar gael, gan gynnwys Hwb a ffynonellau eraill ar-lein. Dywedwyd bod platfform Flipgrid, er enghraifft, yn werthfawr o ran darparu gofodau ar y cyd ar-lein i ddysgwyr a'u teuluoedd. Yn gyffredinol, mae'r profiadau dros y 12 mis diwethaf wedi golygu y datblygodd ysgolion allu ymaddasol, y gallu i fabwysiadu ffyrdd o weithio sy'n newydd ac arloesol.

## Annog Ymgysylltiad Dysgwyr

Yn gysylltiedig ag arloesi, nododd y cyfranogwyr bwysigrwydd dod o hyd i ffyrdd i annog ymgysylltiad â dysgu ac addysgu ymysg y dysgwyr. Dywedwyd yn aml bod cyswllt rheolaidd yn bwysig drwy sesiynau ailgydio dyddiol yn y bore a'r prynhawn er mwyn cynnal cyswllt â'r dysgwyr a chynnal ymgysylltiad. Dywedodd eraill fod monitro presenoldeb o bell a chynnydd ar waith dosbarth yn hanfodol er mwyn sicrhau nad yw'r un dysgwr yn llithro'n ôl ac ymateb yn gyflym pan fydd materion yn codi.

## Ymatebol a Rhagweithiol

Yn gysylltiedig â'r arsylwad ynglŷn â phwysigrwydd ymateb yn gyflym i faterion wrth iddynt godi, roedd y cyfranogwyr hefyd yn teimlo bod angen i ymarferwyr fod yn ymatebol a rhagweithiol. O'r safbwynt hwn, er y gallai'r pwyslais mwy ar ddysgu hunangyfeiriedig ac annibyniaeth fod yn effeithiol i rai dysgwyr, gallai eraill ei chael yn anodd a llithro'n ôl. Teimlwyd ei bod yn bwysig bod angen i ymarferwyr fod yn ymatebol a rhagweithiol i nodi ac ymgysylltu â dysgwyr a allai fod wedi ymddieithrio neu a oedd yn wynebu rhwystrau sylweddol i ddysgu.

# 4 Cynorthwyo Parodrwydd i Ddysgu

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr wedyn archwilio'r heriau a'r cyfleoedd sy'n codi i ymarferwyr wrth iddynt geisio cynorthwyo eu dysgwyr fel eu bod yn barod i ddysgu. Archwiliodd yr ymarferwyr hefyd sut i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i hyn a sut i'w goresgyn.

**Crynodeb**

Roedd y prif heriau a nodwyd o ran cael dysgwyr yn barod i ddysgu yn cynnwys:

- Cynorthwyo lles ehangach dysgwyr a staff.
- Mynd i'r afael â'r tarfu ar ddysgu ac addysgu, yn ogystal a datblygu sgiliau sylfaenol, dros y 12 mis diwethaf.
- Pwysigrwydd ailsefydlu cysylltiadau cymdeithasol a threfn arferol ymysg dysgwyr.

I oresgyn y rhain a rhwystrau a heriau eraill, roedd y themâu allweddol yn cynnwys pwysigrwydd darparu cyfleoedd i ddysgwyr ailgysylltu â ffrindiau, cynnal y ffocws ar les, a chynnal gwelliannau i'r ymgysylltiad â rhieni.

## Lles

Unwaith eto, thema allweddol a welwyd yn yr ymatebion oedd pwysigrwydd cynorthwyo lles y dysgwyr. Gwnaeth bron i bob grŵp dynnu sylw at heriau lles a oedd yn achosi rhwystrau sylweddol posibl i rai dysgwyr. Roedd y rhain, er enghraifft, yn cynnwys materion ymlyniad, newidiadau i batrymau cysgu, gorbryder, profedigaeth a cholled, yn ogystal ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl ehangach. Teimlwyd hefyd bod y tarfiadau wedi arwain at newidiadau mewn ymddygiad i lawer a cholli trefn arferol sefydledig. Mynegwyd hefyd bod effaith amser sgrin sylweddol a lleihad mewn lefelau gweithgarwch corfforol yn destun pryder.

Mynegodd y cyfranogwyr bryderon hefyd ynglŷn â'u gallu i gynorthwyo lles y dysgwyr o bell. Roedd hyn yn cynnwys nodi pryderon diogelu, fel y gallu i nodi neu amgyffred problemau emosiynol dros y sgrin mewn ffordd ddibynadwy.

Cyfeiriodd y cyfranogwyr at bwysigrwydd hyfforddiant, yn ogystal â gwella'r cymorth a'r gwasanaethau arbenigol ehangach sydd ar gael i ddysgwyr. Dywedodd eraill eu bod wedi rhoi mesurau penodol yn eu lle, gan gynnwys sesiynau ailgydio wythnosol sy'n ceisio cryfhau'r berthynas â rhieni a theuluoedd a llwyddwyd i nodi anghenion cymorth. Roedd y cyfranogwyr hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig sicrhau bod cymorth ar gael i ddysgwyr sydd ei angen ac mae dulliau effeithiol yn bodoli i wneud diagnosis ar gyfer y rhai sydd angen cymorth. Dywedodd llawer yr eir i'r afael yn weithredol â lles mewn llawer o ysgolion drwy weithgareddau neu ddosbarthiadau.

I rai, mae sicrhau nad oes ffocws llwyr ar ddysgu academaidd bob amser yn allweddol i gynorthwyo lles dysgwyr. Teimlwyd bod cymorth hirdymor, gan gynnwys cyllid ac arweiniad, hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau y gall ysgolion a lleoliadau fynd i'r afael ag anghenion lles cynyddol neu amlycach ymysg dysgwyr. Roedd eraill yn teimlo bod angen ffocws parhaus ar les. Gallai hyn fod ar ffurf cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr drafod iechyd meddwl ac iddynt rannu eu teimladau. Dylai'r cymorth hefyd gynnwys mynediad i asiantaethau allanol a all gynnig cymorth ychwanegol a mwy arbenigol lle y bo angen.

Mae lles staff hefyd o bwysigrwydd allweddol yn eu gallu i ddarparu dysgu ac addysgu effeithiol. Roedd rhai yn teimlo ei bod yn bwysig ystyried natur newidiol a heriol y gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â'r effeithiau posibl ar eu hiechyd meddwl a'u lles. Dylai staff gael eu cynorthwyo mewn ffyrdd sy'n sensitif i'w hanghenion. Mae angen cydnabod bod staff wedi'i chael yn anodd,  gan gynnwys rhai mewn rolau uwch.

## Mynd i'r Afael â'r Tarfu ar Ddysgu ac Addysgu

Roedd pryder mawr arall yn ymwneud â mynd i'r afael â tharfiadau ar ddysgu ac addysgu dros y 12 mis diwethaf. Roedd pryderon penodol ynglŷn â sut mae'r tarfu a'r pontio i ddysgu ar-lein wedi effeithio ar ansawdd y dysgu a'r addysgu. Roedd hyn yn cynnwys yr anawsterau'r oedd ymarferwyr yn eu cael o ran monitro cynnydd yn effeithiol, adnabod a mynd i'r afael â bylchau yng ngwybodaeth y dysgwyr, a darparu adborth effeithiol i'r dysgwyr.

Yn gysylltiedig iawn â hyn oedd effaith ddilynol y tarfu ar ddysgu ac addysgu a chynnydd. Mynegwyd pryderon sylweddol ynglŷn â sut roedd y tarfiadau wedi arwain at lithro'n ôl ar y cynnwys sy'n cael ei addysgu. Roedd pryderon ynglŷn ag a fyddai modd mynd i'r afael â hyn yn realistig ac effeithiol. Roedd pryderon hefyd ynglŷn â sut mae'r termau 'dysgu a gollwyd' a 'dal i fyny' yn effeithio'n negyddol ar ddysgwyr sy'n teimlo eu bod ar eu hôl hi neu eu bod ar eu colled. Teimlad cyffredin oedd y byddai hyn yn galw am ffocws a sylw sylweddol dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Gyda'i gilydd, roedd pryderon sylweddol yn ymwneud ag effaith y tarfu a'r profiadau amrywiol o ddysgu ac addysgu ar gyrhaeddiad. Canfyddiad llawer oedd bod y bwlch rhwng dysgwyr wedi cynyddu o ganlyniad i hyn. Mae'r plant hynny a oedd ar ei hôl hi nawr hyd yn oed yn bellach ar ei hôl hi o ganlyniad i rwystrau i ymgysylltu, diffyg cefnogaeth gartref a mynediad amrywiol at offer TGCh. Roedd y pryderon wedi'u targedu'n benodol at ddysgwyr bregus neu ddysgwyr dan anfantais ac effaith y tarfu ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr iau.

Roedd anghytuno ynglŷn â sut y gellid mynd i'r afael â hyn yn effeithiol. Roedd rhai'n teimlo ei bod yn bwysig deall y sefyllfa y mae'r dysgwyr ynddi a'i bod yn bosibl nad yw dysgu mwy, neu gywasgu (*"cramming"), yn effeithiol. Roedd eraill yn teimlo ei bod yn bwysig mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth a sgiliau a sicrhau cydraddoldeb rhwng cenedlaethau o ddysgwyr cyfoed, gan gynnwys rhai sydd wedi gadael ysgol, a rhai sydd ar fin cychwyn. Yn fwy cyffredinol, roedd y cyfranogwyr hefyd yn cynnig themâu trawsbynciol a allai, gyda'i gilydd, fynd i'r afael â rhwystrau i ymgysylltu. Caiff y rhain eu cyflwyno'n llawn isod.

## Sgiliau Sylfaenol

Yn gysylltiedig â tharfiadau ar ddysgu ac addysgu, roedd llawer o gyfranogwyr hefyd yn pryderu ynglŷn â chynnydd dysgwyr tuag at sgiliau hanfodol a sylfaenol, gan gynnwys llawysgrifen a llythrennedd. Teimlwyd bod i hyn oblygiadau dwys i addysgu i'r dyfodol, a'i fod yn allweddol i allu dysgwyr i ymgysylltu â deunyddiau addysgu ac ymateb iddynt. Teimlwyd ei bod hefyd yn bwysig cydnabod yr heriau sydd ynghlwm wrth gynorthwyo'r sgiliau hyn o bell. Roedd sgiliau eraill y teimlwyd y gallent fod yn bwysig yn cynnwys cydweithio a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol ehangach.

Mewn ymateb i hyn, roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo ei bod yn bwysig rhoi mwy o sylw i sgiliau sylfaenol yn y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Roedd elfennau o bryder yn ymwneud â'r pwysau fyddai hyn yn ei roi ar amserlennu, yn arbennig pe byddai amcanion ehangach yn eu lle sy'n ceisio mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn gwybodaeth sy'n codi yn sgil y tarfiadau dros y flwyddyn ddiwethaf. O'r safbwyntiau hyn, ystyriwyd mai gwerthfawr fyddai cwtogi ar y cwricwlwm i wneud mwy o le i ganolbwyntio ar sgiliau sylfaenol.

## Trefn Reolaidd a Pherthnasoedd Cymdeithasol

Yn gysylltiedig iawn â sgiliau sylfaenol, roedd pryderon ehangach hefyd ynglŷn â cholli'r drefn arferol a chyswllt cymdeithasol, ac awgrymiadau o sut y gellid mynd i'r afael â hyn. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu trefn arferol i'r dysgu yn ogystal â chynorthwyo'r dysgwyr i ailgychwyn ar gyfeillgarwch â'u cyfoedion a pherthnasoedd ac ymarferwyr a mynd i'r afael ag unrhyw faterion ynghylch cymdeithasoli. Teimlwyd ei bod yn bwysig cydnabod bod profiadau'r dysgwyr yn amrywio'n fawr, ac nad oes un ymagwedd am fod yn addas i bawb. Teimlwyd hefyd ei bod yn bwysig ystyried pa mor barod yw'r dysgwyr i ddysgu eto, a chymryd amser i ailgysylltu, ac roedd rhai'n defnyddio dulliau fel ymagwedd Thrive. Teimlwyd ei bod hefyd yn bwysig ystyried gallu'r dysgwyr i ymdopi â newidiadau, a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu orbryder y mae dysgwyr yn eu hwynebu wrth ailgysylltu â'u cyfoedion.

Blaenoriaeth allweddol i lawer o ymatebwyr o ran dod â dysgwyr yn ôl i'r drefn arferol ac ailgysylltu â'u cyfoedion oedd drwy chwarae. Roedd hyn yn cynnwys cyfranogwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd. O'r safbwyntiau hyn, dylid darparu cyfleoedd i'r dysgwyr fod yn yr awyr agored a chael chwarae gyda'u ffrindiau. Byddai hyn yn gwasanaethu cymunedau'r ysgol, ac yn ailgyflwyno trefn arferol i fywydau'r dysgwyr mewn ffordd dyner a chadarnhaol.

## Gofod

Yn gysylltiedig iawn â phwysigrwydd chwarae, roedd rhai ym teimlo bod gofod awyr agored ar hyn o bryd yn bwysig iawn ac yn werthfawr mewn ysgolion a lleoliadau. Oherwydd grwpiau cyswllt a threfnu amseroedd egwyl am yn ail, roedd rhai yn ei hystyried yn bwysig i ddysgwyr gael mynediad diogel i amgylcheddau dysgu awyr agored. Roedd ychydig gyfranogwyr hefyd yn canolbwyntio mwy ar ddysgu awyr agored. Mae ysgolion a lleoliadau wedi bod yn troi gofodau at ddibenion newydd i'w defnyddio i ddysgu, yn arbennig rhai sydd ag awyru da.

## Ymgysylltiad Dysgwyr

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at nifer o heriau o ran hybu a chynorthwyo ymgysylltiad dysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â diffyg ymgysylltiad ymddangosiadol â dysgu. Yn gysylltiedig iawn â hyn, roedd heriau a rhwystrau'n wynebu rhai dysgwyr, gan gynnwys mynediad at dechnoleg ddigidol a sgiliau yn y maes hwn, sy'n effeithio'n negyddol ar ymgysylltiad. Roedd ychydig gyfranogwyr hefyd yn pryderu ynglŷn ag ymddygiad a chanfyddiadau tuag at ddysgu ac addysgu:

> *'Mae dysgwyr hŷn yn gweld nad oes pwynt dysgu; pa fath o swyddi sydd ar gael ar eu cyfer? Oes diben mynd i Brifysgol?'.*
>
> Grŵp 2, 23ain Mawrth, Cymraeg

Trafododd yr ymarferwyr sut maent wedi bod yn mynd i'r afael â'r heriau hyn, gan gynnwys addasu'r cwricwlwm drwy gwtogi ar ddysgu academaidd a darparu gweithgareddau lles ychwanegol. Fel ffordd i fynd i'r afael ag ymgysylltiad dysgwyr, dewisodd rhai ysgolion ymagwedd mwy hyblyg at gynnwys drwy ddefnyddio arddull greadigol a phwrpasol o ddysgu. Roedd hyn yn cynnwys cwtogi ar gynnwys y cwrs er mwyn canolbwyntio ar feysydd allweddol. Mae hyn wedi caniatáu i ysgolion ymateb i anghenion dysgwyr ac mae wedi helpu llais y dysgwr i gael ei ymgorffori ymhellach yn y cynnwys ac er mwyn cynorthwyo ymgysylltiad.

> *'Roedd yn rhaid i'r cynllunio a'r addysgu fod yn llawer mwy effeithlon, creadigol a phwrpasol ac felly'n wahanol iawn i'r drefn arferol / yr arferion a fyddai wedi digwydd yn yr ystafell ddosbarth. Roedd hyn felly wedi galluogi'r staff i fentro'n ofalus a mynd i'r afael â dysgu ac addysgu a chynllunio mewn ffordd wahanol – profiadau a fydd wedyn yn cyfrannu at y dyfodol'.*
>
> Grŵp 10, 23ain Mawrth, Saesneg

Roedd y cyfranogwyr hefyd yn teimlo y dylai ymarferwyr ac ysgolion geisio canolbwyntio eu sylw ar ailymgysylltu â'r dysgwyr, yn arbennig y rhai sydd wedi'i chael yn anodd dros y 12 mis diwethaf. Yn fwy cyffredinol, roedd hyn yn cynnwys ailsefydlu'r perthnasoedd pwysig rhwng yr ymarferwyr a'r dysgwyr.

## Cymorth Rhieni

Fel a nodwyd yn flaenorol, ystyriwyd bod ymgysylltiad rhieni yn allweddol i gynorthwyo dysgu gartref yn effeithiol. Cafwyd heriau, gan gynnwys lefelau amrywiol o ddisgwyliadau ac ymgysylltiad. Bydd aelwydydd wedi cael profiadau gwahanol o ddysgu gartref. Roedd llawer yn ystyried ei bod yn bwysig mynd i'r afael ag ymgysylltiad gwahaniaethol, gan gynnwys cynorthwyo rhieni neu ofalwyr a allai fod yn wynebu rhwystrau sylweddol i gynorthwyo'r dysgu. Roedd rhai'n teimlo bod deialog agored rhwng yr ysgol a'r cartref yn effeithiol er mwyn creu profiadau dysgu cadarnhaol a chydlynol, yn ogystal â mynd i'r afael â'r heriau sydd eto i ddod. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo y bydd angen i'r ysgolion adeiladu ac atgyfnerthu'r cynnydd a wnaed ar ymgysylltu â rhieni. Roedd yn teimlo'n bwysig adeiladu ar y cynnydd a wnaed ar ymgysylltu â rhieni, a oedd yn cael ei ystyried yn bwysig yn benodol o ran cael y dysgwyr yn barod i'r ysgol a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon. Roedd hyn yn cynnwys cynnal

y cyfathrebu fel bod y rhieni'n ymwybodol o'r diweddaraf o ran dysgu ac addysgu a datblygiadau ehangach yn yr ysgol neu'r lleoliad.

## Mynediad a Sgiliau yn Ymwneud â Thechnoleg Ddigidol

Pryder llai arall oedd bod mynediad at dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn anghyfartal, ynghyd â hyder i'w defnyddio. Nododd y cyfranogwyr ei bod yn ymddangos bod amrywiaeth sylweddol yn yr adnoddau a'r sgiliau yn y cartref, ymysg y dysgwyr a'u rhieni neu ofalwyr. I rai, roedd hyn yn cyflwyno heriau sylweddol i ddysgu. Roedd hyn yn cynnwys cysylltedd, mynediad at galedwedd gan gynnwys dyfeisiau addas ac argraffyddion, yn ogystal â'r sgiliau a'r hyder i'w defnyddio'n effeithiol. O'r safbwyntiau hyn, roedd diffyg mynediad a sgiliau mewn rhai aelwydydd yn cyfrannu at ffurfio neu waethygu gwahaniaethau eraill, gan gynnwys ymgysylltiad dysgwyr a rhieni, ac effeithiolrwydd y dysgu a'r addysgu yn sgil hynny.

Roedd ffocws ymhlith y cyfranogwyr ar bwysigrwydd buddsoddi mewn technoleg a sgiliau i fynd i'r afael â rhwystrau yn sgil y mater hwn sy'n dal i amharu ar ymgysylltiad.

## Amddifadedd ac Anfantais

Yn gysylltiedig iawn â hyn, mae'r tarfu dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd wedi pwysleisio'r amddifadedd a'r anfantais y mae rhai dysgwyr yn eu hwynebu ar draws cymunedau yng Nghymru. Roedd y cyfranogwr yn teimlo bod y dysgwyr hyn yn wynebu heriau a rhwystrau ychwanegol o ran dysgu ac addysgu, fel mynediad at TGCh, sy'n aml yn arwain at lefelau is o ymgysylltiad. Roedd hyn yn cael ei waethygu gan y canfyddiad bod Hybiau'n cael eu sefydlu i weithwyr allweddol a phlant bregus, ond nad oeddynt yn cwmpasu'r holl ddysgwyr a allai elwa o fwy o gymorth, gan gynnwys rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Roedd pryderon hefyd yn ymwneud yn benodol â'r cymorth a gynigir i ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Teimlwyd bod heriau a rhwystrau ychwanegol i'w cynorthwyo hwy'n effeithiol o bell, a bod angen mynd i'r afael â hyn ar frys.

Unwaith yn rhagor, cyfeiriodd rhai cyfranogwyr at bwysigrwydd cyllid ac adnoddau i gynorthwyo'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

## Staffio

Ystyriwyd bod staff yn allweddol i bontio'n llwyddiannus yn ôl i mewn i'r ysgol, a sicrhau bod y dysgu a'r addysgu yn effeithiol. Nodwyd bod ymgysylltiad staff yn bwysig er mwyn ffurfio ymatebion a sicrhau effeithiolrwydd prosesau a threfniadau gweithio diwygiedig. Gallai hyn gynnwys cydgynhyrchu fel ffordd i symud ysgolion ymlaen gyda'i gilydd. Roedd rhai hefyd yn ystyried bod darparu cyfleoedd i rannu'r hyn a ddysgir a chynhyrchu deunyddiau neu gynnwys gyda'i gilydd yn werthfawr, gan gynnwys oddi mewn i ysgolion ac ar draws ysgolion.

Cyfeiriodd y cyfranogwyr hefyd at bwysigrwydd amser ac adnoddau i alluogi eu dysgwyr i fod yn barod i ddysgu. Roedd rhai'n teimlo bod diffyg capasiti i ddarparu cymorth effeithiol a chynaliadwy i ddysgwyr, gan gynnwys rhai sydd dan anfantais neu sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd hyn yn cynnwys nifer gyfyngedig o Gynorthwywyr Addysgu i gynorthwyo'r dysgu ac addysgu. Nododd yr ymatebwyr effaith negyddol y cynnydd mewn

llwythi gwaith cynyddol a'r lleihad mewn capasiti ar les staff, a bod angen sicrhau y caiff staff presennol eu cefnogi'n dda.

## Pontio

Cyfeiriodd y cyfranogwyr hefyd at yr heriau cynyddol sy'n wynebu dysgwyr sy'n pontio i mewn i ysgolion a lleoliadau, rhyngddynt ac allan ohonynt. Roedd hyn yn cynnwys heriau cymdeithasol ac emosiynol yn sgil peidio â chael digwyddiadau allweddol ym mywydau oedolion ifanc, yn ogystal â'r diffyg cyfleoedd i ddysgwyr iau ddatblygu'n gymdeithasol ac emosiynol.

## Arweiniad a Chymorth

Roedd pryderon ynghylch faint o arweiniad sy'n bodoli i gynorthwyo ymarferwyr ac ysgolion, a chysondeb yr arweiniad hwnnw. Roedd hyn yn cynnwys helpu ymarferwyr ac ysgolion i wynebu heriau'r tarfu, ac o ran fframio a llywio eu hymatebion. Mynegwyd pryderon hefyd nad oedd canllawiau yn cael ei ddosbarthu'n brydlon. Gyda'i gilydd, roedd hyn yn cyflwyno heriau gweithredol i ysgolion o ran ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau. Teimlwyd bod hyn yn bwysig er mwyn helpu'r ymarferwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n llwyddiant y tu allan i gyrhaeddiad academaidd yn unig. Roedd rhai'n teimlo y byddai ar ysgolion angen arweiniad a chymorth ariannol amserol pellach er mwyn gwneud cynnydd a darparu cymorth mwy cynhwysfawr a chydlynol i'r dysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i weithio tuag at leihau bylchau mewn gwybodaeth a sgiliau, a pharatoi at asesiadau.

## Asesu

Roedd pryderon gan lawer hefyd ynglŷn ag effaith y tarfu ar baratoi at asesiadau. Roedd hyn yn cynnwys ansicrwydd am ddyfodol asesiadau, gan gynnwys sut maent am gael eu hymgorffori yn y cwricwlwm newydd. Roedd rhai'n teimlo bod angen mwy o eglurder ac arweiniad er mwyn i'r ymarferwyr baratoi'r dysgwyr er mwyn i asesiadau gael eu cynnal.

## Geirfa

Roedd rhai'n cwestiynu'r derminoleg ynglŷn â'r heriau sy'n wynebu dysgwyr ac ysgolion. Roedd teimlad y gallai 'dal i fyny', 'dysgu a gollwyd', ac 'adfer', er enghraifft, ddwysáu gorbryder ymysg dysgwyr a rhieni. Byddai hyn yn galw am feddalu'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â chymunedau ledled Cymru, gan gynnwys gan leoliadau ac ysgolion, ond hefyd yn ehangach mewn dadleuon cyhoeddus ac yn y cyfryngau.

## Heriau Tebyg

Roedd ychydig gyfranogwyr yn teimlo nad yw'r materion a'r heriau sylweddol sy'n wynebu lleoliadau ac ysgolion wedi newid llawer. O'r safbwyntiau hyn, mae llawer o ysgolion yn wynebu heriau tebyg i'r hyn oedd cyn COVID-19, gan gynnwys, er enghraifft, ymddieithrio, anfantais a mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad. Er bod y pandemig wedi gwaethygu a newid deinameg yr heriau hyn, gan eu bod yn gyfarwydd, roedd yr ysgolion yn meddu ar y gallu i fynd i'r afael â hwy.

## 4.1 Sut mae goresgyn y rhain?

Unwaith eto, cynigodd y cyfranogwyr rai themâu trawsbynciol, hollgyffredinol o ran sut i fynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau i ddysgu'n effeithiol.

### Llais y Dysgwr

Elfen allweddol y teimlwyd ei bod yn bwysig oedd sicrhau bod gan y dysgwyr lais mewn penderfyniadau'n ymwneud â hwy, gan gynnwys sut maent eisiau gwneud cynnydd a dysgu. Gallai hyn gynnwys rhoi mwy o gyfleoedd i'r dysgwyr roi adborth ar benderfyniadau'n ymwneud â dysgu ac addysgu, ond hefyd yn fwy cyffredinol ar faterion yn ymwneud â lles.

### Monitro

Thema drawsbynciol lai amlwg oedd pwysigrwydd monitro'n ofalus sut mae'r dysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol er mwyn nodi unrhyw broblemau posibl ar gam cynnar. Gallai hyn gynnwys monitro'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion a monitro cyrhaeddiad y dysgwyr drwy waith cartref. Gallai hyn helpu i nodi dysgwyr y mae angen mwy o gefnogaeth neu gymorth arnynt wrth bontio'n ôl i'r ysgol.

### Amser

Teimlwyd bod angen amser i ganiatáu i'r ymarferwyr ddatblygu a chyflawni ystod ehangach o gymorth ochr yn ochr â'r addysgu. Roedd yn cael ei gydnabod y byddai hyn yn galw am feddwl mwy yn yr hirdymor ac nad oes atebion sydyn i'w cael. Roedd rhai'n teimlo y gallai paratoi a chynllunio annigonol waethygu'r heriau sy'n wynebu ysgolion yn hytrach na mynd i'r afael â hwy.

### Cymorth Allanol

Roedd rhai hefyd yn cydnabod y rôl bwysig fyddai i sefydliadau allanol wrth gynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i fynd i'r afael â rhwystrau i ddysgu a diwallu anghenion sydd heb eu diwallu. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda sefydliadau o'r trydydd sector, Awdurdodau Lleol, a chyrff eraill sydd â diddordeb mewn addysg a lles dysgwyr.

# 5 Cynorthwyo Cynnydd Dysgwyr

Yn olaf, trafododd yr ymarferwyr sut i alluogi'r dysgwyr i wneud y cynnydd sydd ei angen i symud ymlaen â'u dysgu. Roedd yn annog y cyfranogwr i fyfyrio ar gyfleoedd a heriau'n ymwneud â sicrhau cynnydd y dysgwyr a sut gellir goresgyn unrhyw rai o'r heriau hyn.


**Crynodeb**

Roedd y prif themâu yn y sgwrs hon yn canolbwyntio ar sgiliau ac asesu. Nododd yr ymarferwyr nifer o heriau a chyfleoedd i sicrhau cynnydd y dysgwyr, gan gynnwys:

- Pwysigrwydd amgylchedd dysgu cadarnhaol i gynorthwyo'r dysgwyr wrth ddychwelyd i'r ysgol.
- Y cydbwysedd sy'n ofynnol rhwng yr angen i asesu dysgwyr a'u lles.
- Datblygu sgiliau dysgwyr, fel llythrennedd a sgiliau cymdeithasol, yn ogystal â chynorthwyo'r sgiliau ychwanegol a ddysgwyd yn ystod y cyfnod clo, h.y. sgiliau digidol.

I oresgyn yr heriau hyn i annog cynnydd, roedd y prif themâu a nodwyd yn canolbwyntio ar:

- Caniatáu i ymagwedd a gweledigaeth ysgol gyfan gael eu datblygu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion yn y ffordd orau.
- Yr angen am asesiadau ac eglurder ynghylch sut maent am gael eu cynnal wrth symud ymlaen.
- Pwysigrwydd cynnal sgiliau newydd a ddatblygwyd dros y 12 mis diwethaf drwy eu hintegreiddio yn arferion parhaus yr ysgol, fel defnyddio cyfarfodydd ar-lein yn ddull cyfathrebu effeithiol.


## Datblygu Sgiliau Sylfaenol

Thema allweddol yn y sgwrs hon oedd yr angen i ganolbwyntio ar ddatblygu ystod o sgiliau sylfaenol. Roedd hyn yn cynnwys atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd yn ystod y cyfnod clo, gan gynnwys llythrennedd digidol, yn ogystal â'r sgiliau hynny y gellid bod wedi effeithio'n negyddol arnynt fel darllen ac ysgrifennu. Roedd sgiliau y cyfeiriwyd yn aml atynt fel rhai sydd angen canolbwyntio arnynt yn cynnwys llythrennedd a sgiliau darllen yn ogystal â sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. Cyfeiriodd yr ymarferwyr at y ffaith na fyddai un ateb yn addas i bawb ac mae rhai dysgwyr wedi ffynnu yn ystod y cyfnod clo gan wneud cynnydd da. Fodd bynnag, cafwyd enghreifftiau niferus o ymarferwyr yn mynegi pryderon bod dysgwyr wedi dychwelyd i'r ysgol â llai o gymhwysedd mewn rhai meysydd.

Caiff y pwynt hwn ei egluro gan sylwadau'n ymwneud â sgiliau dysgu annibynnol. Roedd rhai dysgwyr wedi datblygu eu hannibyniaeth yn ystod y cyfnod clo ac roeddynt bellach yn gallu cymryd mwy o berchnogaeth a chyfrifoldeb am eu dysgu. Ar y llaw arall, roedd rhai wedi dod

yn ddibynnol ar y cymorth un-i-un a gawsant gartref ac roedd hyn yn cyflwyno heriau i ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth.

Awgrymodd yr ymarferwyr y gellid goresgyn yr her hon drwy ganolbwyntio o'r newydd ar nodi a mynd i'r afael â'r ystod o sgiliau yr effeithiwyd arnynt gan y cyfnod clo: y sgiliau academaidd a'r sgiliau cymdeithasol ac emosiynol ehangach. Roeddynt hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig defnyddio ac adeiladu ar y sgiliau a oedd wedi'u datblygu drwy gydol y cyfnod clo. Er enghraifft, cynnal agweddau ar ddysgu digidol a dysgu cyfunol i ategu a gwella arferion addysgu mwy traddodiadol. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio platfformau digidol a darparu cyfleoedd dysgu cydamserol ac anghydamserol, efallai drwy dasgau gwaith cartref.

Awgrymwyd hefyd y dylid rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. Roedd hyn yn berthnasol yn benodol lle roedd modd nodi mai ymarferwyr cynradd oedd y cyfranogwyr. Roedd hyn yn cynnwys drwy sicrhau bod ysgolion yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'r gallu i ymdopi â newidiadau, sgiliau cyfathrebu, hyder a sgiliau cydweithio.

## Asesu

Thema fawr arall a nodwyd gan yr ymarferwyr oedd rôl asesu. Yn sgil y pandemig, roedd angen symud oddi wrth fodelau hŷn o asesu crynodol, ac mae hynny wedi arwain rhai i gwestiynu beth fydd cyfeiriad yr arfer o brofi yn y dyfodol. Roedd teimlad bod ffurfiau asesu presennol yn golygu bod rhai ysgolion yn canolbwyntio gormod ar ganlyniadau arholiadau, ac yn cael eu gyrru ganddynt. Mae'r pandemig wedi galluogi ymarferwyr i arbrofi ag arddulliau mwy creadigol o asesu. Mae i hyn oblygiadau o ran gweithredu Cwricwlwm i Gymru i'r dyfodol am fod ymarferwyr yn teimlo ei fod yn cynnig cyfle i ailedrych ar rôl asesu er mwyn sicrhau ei fod yn ategu'r dysgu ac addysgu yn hytrach na'i fod yn gyrru'r dysgu ac addysgu.

Er y nodwyd bod asesu'n her, nodwyd hefyd ei fod yn rhan o'r ateb. Cyfeiriodd yr ymarferwyr at bwysigrwydd asesu parhaus er mwyn nodi bylchau yn y dysgu a achoswyd gan y tarfiadau dros y 12 mis diwethaf a defnyddio hyn i lywio'r cynllunio. Mae asesu'n offeryn allweddol i fesur anghenion dysgwyr a chyfeiriodd yr ymarferwyr at bwysigrwydd asesu yn y modd y mae'n cyfrannu at gynnydd dysgwyr. Yn hyn o beth, roedd pryder y dylai'r iaith a'r eirfa a ddefnyddir yn ehangach ganolbwyntio ar 'nodi bylchau' yn hytrach na 'dal i fyny' neu 'ddysgu a gollwyd': termau sy'n cael eu hystyried yn ffynhonnell negatifedd a gorbryder ymysg rhai rhieni a dysgwyr.

> *'Mae plant yn dysgu orau pan mae eu dysgu yn gysylltiedig; mae gwybodaeth heb ei chymhwyso yn ddibwrpas. Wrth sôn am ymreolaeth, mae angen i ni fod yn ofalus fel proffesiwn oherwydd rydych chi ond yn gwybod yr hyn a wyddoch. Mae angen i blant ddeall a chael sgaffaldau er mwyn hunanasesu. Mae angen i ni ddeall yn well sut a pham ein bod ni'n defnyddio asesu ar gyfer ddysgu'.*
>
> Grŵp 24, 18fed Mawrth, Saesneg

Her arall y cyfeiriwyd ati'n aml mewn perthynas ag asesiadau oedd y gred y bu diffyg eglurder ac arweiniad prydlon. Roedd yr ymarferwyr yn teimlo bod i hyn oblygiadau i lefelau gorbryder a straen y dysgwyr.

> *'Mae angen i ysgolion wybod sut maen nhw am gael eu mesur. Mae angen i ysgolion fod â hyder ynglŷn â sut mae hyn am ddigwydd. Mae'r Disgrifiadau Dysgu ar lefel uchel. Sut beth yw cynnydd? Mae ysgolion yn hyderus y gallant edrych ar gynnydd unigolyn ond sut beth ydyw ar lefel ysgol?'*
>
> Grŵp 14, 23ain Mawrth, Saesneg

Gwelwyd rhai llwyddiannau a heriau yn gysylltiedig ag asesiadau a chymwysterau dros y 12 mis diwethaf. Yn sgil symud oddi wrth fodelau asesu a safbwyntiau hŷn, agorwyd y ffordd at arddulliau mwy creadigol o fonitro cynnydd ymysg dysgwyr. Fodd bynnag, yn sgil y newidiadau, yn arbennig mewn perthynas ag asesiadau ffurfiol, gwelwyd effaith ar ffurf ansicrwydd a gorbryder ymysg y dysgwyr.

## Dysgwyr yn ailymgysylltu

Her arall a nodwyd yn y nodiadau oedd yr angen i sicrhau bod ysgolion yn creu awyrgylch cadarnhaol sy'n helpu'r dysgwyr i ailymgysylltu. Roedd yr ymarferwyr yn teimlo bod hyn yn bwysig i gynorthwyo'r dysgwyr i bontio'n ôl i mewn i'r ysgol a sicrhau eu bod wedi'u hysgogi ac wedi ymgysylltu. Roedd rhai yn teimlo bod y ffocws o'r newydd ar les yn agwedd bwysig i'w chynnal wrth symud ymlaen a bod angen ailadeiladu amgylchedd yr ysgol i ddiwallu'r holl anghenion yn amgylchedd yr ysgol, gan gynnwys dod o hyd i gydbwysedd rhwng datblygiad academaidd, emosiynol a chymdeithasol.

Gwnaed amryw awgrymiadau sy'n cyd-fynd â'r her hon. Er enghraifft, pwysleisiodd yr ymarferwyr bwysigrwydd bod ysgolion yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd oddi mewn i'r cwricwlwm. Roeddynt yn awgrymu bod cyfleoedd cyfoethogi hefyd yn bwysig er mwyn helpu'r dysgwyr i ailymgysylltu a datblygu ysgogiad yn dilyn y cyfnod clo. Cyfeiriodd rhai at ddysgwyr yn methu â derbyn cyfleoedd o ganlyniad i'r pandemig a bod ysgolion mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Nodwyd hefyd bod llais y dysgwyr yn rhan allweddol o helpu'r dysgwyr i ailymgysylltu yn dilyn y cyfnod clo. Roedd hyn yn cynnwys dysgwyr yn chwarae rhan mewn penderfyniadau ynghylch pa bynciau roeddynt eisiau eu dysgu ac arwain ar eu dysgu eu hunain. Dywedwyd bod llais y dysgwyr hefyd yn agwedd bwysig i ysgolion wrth iddynt fynd ati i ddatblygu a mireinio eu cwricwla. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig ar gyfer ymgysylltiad ac ysgogiad y dysgwyr.

> *Cael gwybod gan y dygwyr ble maen nhw'n meddwl maen nhw arni o ran eu dysgu, a hefyd angen rhoi dewisiadau iddyn nhw mewn perthynas â'u dysgu er mwyn helpu i feithrin perchnogaeth. Bydd hyn yn helpu i'w hysgogi a'u helpu i ymgysylltu. Cael y cariad at ddysgu yn ei ôl.*
>
> Grŵp 4, 10fed Mawrth, Saesneg

## Cwricwlwm i Gymru

Roedd y cwricwlwm newydd yn thema gyffredin yn yr ymatebion. Roedd hyn yn cynnwys y sawl a oedd yn teimlo bod profiadau'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfle pwysig i ddatblygu syniadau am y cwricwlwm newydd. Cyflwynodd gyfleoedd i ymarferwyr arbrofi ac arloesi, mewn perthynas â'r cwricwlwm ac addysgeg. Roedd rhai'n teimlo y gall agweddau ar sut mae ysgolion wedi addasu i ddysgu ac addysgu yn wyneb y tarfu gael eu trosglwyddo i mewn i'r cwricwlwm newydd. O'r safbwyntiau hyn, er mwyn manteisio ar y cynnydd a wnaed mewn llawer o feysydd, byddai'r dysgu proffesiynol, y creadigrwydd a'r arloesedd y mae wedi'u creu dros y 12 mis diwethaf yn fuddiol wrth roi Cwricwlwm i Gymru ar waith.

> *'Mae ysgolion yn teimlo y dylem fwrw ymlaen â'r cwricwlwm ar sail yr amserlen bresennol, fel arall mae perygl y byddwn yn colli momentwm'*.
>
> Grŵp 18, 18fed Mawrth, Saesneg

Ar y llaw arall, mynegwyd pryderon ynglŷn ag amserlen cyflwyno'r cwricwlwm. Roedd rhai'n teimlo ei bod yn anodd gweld sut gallai ysgolion ymrwymo'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu eu cwricwlwm newydd yng nghyd-destun yr heriau y maent yn eu hwynebu.

> *'Bydd dod allan o'r pandemig hwn yn cymryd mwy nag 1 flwyddyn ac mae angen i ni ailystyried ein hamserlen yn unol â hynny… Mae angen i'r disgwyliadau ar ysgolion mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru fod yn glir'.*
>
> Grŵp 14, 18fed Mawrth, Saesneg

## Atebolrwydd

Roedd ansicrwydd ynglŷn â rôl a natur gweithdrefnau atebolrwydd. Byddai rhai cyfranogwyr wedi croesawu mwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru ac Estyn ynglŷn â'r disgwyliadau ar ysgolion. Dros y 12 mis diwethaf rhoddwyd rhyddid ac ymreolaeth i ysgolion ddatblygu ymateb wedi'i deilwra at eu hanghenion penodol, ac roedd rhai'n teimlo bod hyn yn beth cadarnhaol. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynglŷn ag arolygiadau Estyn a gobaith y byddent yn cael eu hoedi fel nad ydynt yn cael eu barnu yn 2022 yng ngoleuni'r blaenoriaethau presennol mae ysgolion a lleoliadau wedi gosod i'w hunain:

> *'Mae disgwyl yr 'alwad' oddi wrth Estyn o fis Medi 2021 ymlaen yn rhoi pwysau mawr ar staff i symud yn syth at ochr academaidd y disgyblion yn hytrach na buddsoddi amser yn yr ochr gymdeithasol a llesiant. Ofn a gorbryder y gallai hyn gael effaith fawr ar unigolion wrth iddyn nhw geisio ymdopi a derbyn yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y pandemig'.*
>
> Grŵp 1, 10fed Mawrth, Cymraeg

## Llwythi Gwaith Trwm Parhaus

Yn gysylltiedig iawn ag atebolrwydd, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch y pwysau parhaus sydd ar rai aelodau o staff. Roedd pryderon ynghylch pwysau parhaus ar staff, gan gynnwys cyrraedd targedau academaidd a diwygiadau parhaus i'r cwricwlwm.

## Adnoddau

Nododd y cyfranogwyr bwysigrwydd adnoddau digonol i reoli'n effeithiol y gwahanol flaenoriaethau ac ymrwymiadau sy'n wynebu ysgolion a lleoliadau. Roedd mynd i'r afael â lles a chynorthwyo lles, ailymgysylltu â dysgwyr, mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth a sgiliau, gwaredu rhwystrau i ddysgu a chynorthwyo'r rhai mwyaf bregus oll yn cael eu hystyried yn flaenoriaethau pwysig a fyddai, gyda'i gilydd, yn galw am amser a sylw. I rai, roedd hyn hefyd yn cynnwys yr amser a'r sylw sy'n ofynnol i integreiddio'r cwricwlwm newydd. O'r safbwyntiau hyn, mae ar ysgolion angen y cyllid, yr amser a'r gofod i reoli'n effeithiol y galwadau cyferbyniol hyn ar ysgolion a lleoliadau.

## Hyder yn y Gweithlu Addysg

Thema ymylol hefyd oedd pryderon ynghylch y naratif treiddiol o argyfwng a dirywiad ym myd addysg. Teimlwyd bod hyn yn rhwystr i greu naratifau mwy cadarnhaol a grymusol ynglŷn â rôl a photensial y gweithlu addysg. Mynegwyd pryderon, er enghraifft, ynglŷn â'r defnydd o ddata asesiadau yn y dyfodol, gan gynnwys i gefnogi naratifau ynghylch diffyg ymddiriedaeth mewn ymarferwyr i gyflawni canlyniadau teg.

## Diben Cyffredin

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod angen gweledigaeth hollgyffredinol i yrru a chyfeirio newid. Roedd rhai'n teimlo bod angen ystyried sut beth rydym eisiau i ddysgu fod, ac ysgogi sgyrsiau am sut rydym eisiau i blant fod a sut rydym eisiau iddynt ddatblygu. Teimlwyd bod y cwricwlwm newydd yn werthfawr wrth geisio gwneud hyn. Dywedodd rhai bod y pedwar diben, er enghraifft, yn darparu egwyddorion arweiniol a ddylai lywio trafodaethau a phenderfyniadau ynglŷn â dysgu ac addysgu i'r dyfodol. Blaenoriaeth sylweddol arall i'r cyfranogwyr oedd pwysigrwydd trafod a chytuno ar ddulliau ysgol gyfan i fynd i'r afael â'r heriau maent yn eu hwynebu.

## Eglurder a Sicrwydd

Cyfeiriodd rhai at bwysigrwydd eglurder a sicrwydd er mwyn sicrhau newid cynaliadwy hirdymor i ddysgu ac addysgu. Dywedwyd bod trefniadau asesu, er enghraifft, yn faes allweddol i gael gwell eglurder ynglŷn â natur a chyfeiriad trefniadau. Roedd eraill yn teimlo bod ansicrwydd sylweddol yn y system, gan gynnwys mewn perthynas â'r newidiadau posibl yn sgil etholiadau sydd ar y gorwel ar draws Cymru. O'r safbwyntiau hyn, lle y bo'n bosibl, byddai mwy o eglurder a sicrwydd o gymorth i gynllunio a pharatoi yn fwy effeithiol.

## Deialog a Chydweithredu

Roedd llawer hefyd yn teimlo bod cynnal a hybu deialog a chydweithredu yn bwysig. Mae cyfle i gynnal deialog rhwng ysgolion, gweithwyr proffesiynol, asiantaethau a chonsortia er mwyn rhannu’r hyn a ddysgir a datblygu dulliau i wneud y gorau o gynnydd dysgwyr. Dywedodd llawer o ymatebwyr eu bod yn gwerthfawrogi’r cyfle i drafod y materion sy’n eu hwynebu gyda chydweithwyr drwy’r sgyrsiau hyn.

# 6 Casgliadau

Darparodd y sgyrsiau gyfleoedd gwerthfawr i'r cyfranogwyr fyfyrio ar y 12 mis diwethaf. Roedd llawer o ymarferwyr yn gadarnhaol ynglŷn â'r hyn roeddynt wedi'i gyflawni ar y cyd a'r cynnydd a wnaethant. Roedd yr amgylchiadau, a brys a rheidrwydd y sefyllfa, yn galw ar ymarferwyr ac ysgolion i weithredu ac arloesi, a hynny weithiau'n gyflym iawn. Roedd rhai'n teimlo bod yr amgylchiadau wedi rhoi rhyddid iddynt arbrofi, a rhoi syniadau newydd ac arloesol ar waith, gan gynnwys mewn perthynas â dysgu ac addysgu. I rai roedd hyn yn gyffrous ac yn adlewyrchu teimlad cyffredinol y cwricwlwm newydd gyda'i bwyslais ar fwy o ymreolaeth i ymarferwyr ffurfio'r dysgu ac addysgu.

Fodd bynnag, ni fu'r 12 mis diwethaf heb eu heriau. Nid yw'r rhan fwyaf o'r heriau sylweddol ynghylch dysgu ac addysgu a godwyd gan y cyfranogwyr yn tarddu o'r pandemig. Roedd materion fel ymgysylltiad gwahaniaethol, y bwlch cyrhaeddiad, ac anghydraddoldebau yn y gymuned addysg yn bodoli cyn 2020. Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod COVID-19 wedi cynyddu a newid ffiniau'r heriau hyn. Bu'r bwlch digidol yn fater parhaus bob amser, ond mae'r pwyslais mwy ar ddysgu ar-lein neu ddysgu cyfunol wedi cynyddu ei arwyddocâd. Bu'n rhaid i ymarferwyr ac ysgolion ddod o hyd i ffyrdd newydd i fynd i'r afael â'r heriau hyn, fel cynyddu ymgysylltiad o bell. Cynigodd yr ymarferwyr amrywiaeth eang o awgrymiadau ymarferol o sut gellid mynd i'r afael â'r rhain.

Cyfeiriodd yr ymarferwyr hefyd at heriau newydd sy'n codi. Roedd y rhain yn dueddol o ganolbwyntio ar heriau gweithredol sy'n gysylltiedig â chynorthwyo dysgwyr, gan gynnwys cynnig darpariaeth lles, ymgysylltu a chyfathrebu â rhieni, a darparu amgylcheddau dysgu diogel. Gwnaed ymdrechion sylweddol hefyd i ddatblygu hyder a sgiliau ymarferwyr, yn arbennig o ran sgiliau digidol ac addysgeg addysgu ar-lein. Aeth ysgolion a lleoliadau ati hefyd i ailfframio ac addasu prosesau ac arferion presennol, gan gynnwys mewn perthynas â diogelu. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at heriau o ran adnoddau yr oedd yr ysgolion wedi'u hwynebu wrth ymateb i'r blaenoriaethau hyn.

Canfyddiad clir ar draws y sgyrsiau oedd barn yr ymarferwyr am bwysigrwydd lles. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar bontio'r cartref a'r ysgol, gan gynnwys o ran datblygu gwell dulliau cyfathrebu â rhieni. Dywedwyd bod y cynnydd mewn ymgysylltiad â dysgu ar-lein a dysgu cyfunol oll yn galonogol. Roedd rhybudd ynglŷn â heriau ynghylch mynd i'r afael ag ymgysylltiad gwahaniaethol o ran rhieni a dysgwyr a chanlyniadau hirdymor posibl hynny.

Wrth feddwl am y dyfodol, roedd rhai ymarferwyr yn teimlo bod y 12 mis nesaf yn gydbwysedd o geisio cynnal ac atgyfnerthu'r cynnydd sydd wedi'i wneud, tra'n lliniaru effeithiau negyddol y tarfu ar ddysgu ac addysgu. Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn teimlo y byddai heriau'n parhau o ran adnoddau, gan gynnwys wrth gynorthwyo lles, mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau a gwybodaeth, ac wrth baratoi'r dysgwyr at asesiadau. Roedd rhai'n teimlo bod angen amser a gofod ychwanegol arnynt i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, ond roedd eraill yn ystyried y cwricwlwm newydd yn gadarnhaol, ac yn atgyfnerthu'r

ymreolaeth yr oedd yr ymarferwyr wedi'i mwynhau. O'r safbwyntiau hyn, byddai'r cwricwlwm newydd yn atgyfnerthu rhywfaint o'r cynnydd a wnaed.

# Atodiad: Canllaw Trafod

Defnyddiodd hwyluswyr y sgyrsiau ganllaw trafod safonol i lywio natur a ffocws y sgyrsiau. Defnyddiwyd y canllaw hefyd i gasglu nodiadau o'r trafodaethau, a dyma sy'n sail i'r dadansoddiad hwn.

| **Y wal bryderon**: | |
|---|---|
| ***Beth yw'r pryder?*** | ***(os nad yw'n glir) Pam fod hyn y tu hwnt i'ch rheolaeth?*** |

<table>
<tr><td colspan="2"><u>Sgwrs 1</u>:<br>Yn y flwyddyn ddiwethaf, beth sydd wedi gweithio'n dda o ran dysgu ac addysgu a pham? Sut wnaethoch chi oresgyn y prif heriau roeddech chi'n eu hwynebu?<br><br>Ysgogiadau:<br>1. Oes enghraifft o rywbeth a weithiodd yn dda yn eich arferion dysgu ac addysgu yn y flwyddyn ddiwethaf?<br>2. Pa ddulliau dysgu ac addysgu newydd rydych chi wedi rhoi cynnig arnyn nhw eleni? Sut wnaethon nhw weithio i chi?<br>3. Beth oedd y rhwystrau wnaethoch chi eu hwynebu? Sut wnaethoch chi eu goresgyn?<br>4. Beth ydych chi wedi'i ddysgu ynglŷn â'ch ymarfer eich hun neu ymarfer eich cydweithwyr? Beth ydych chi eisiau dal ati i'w wneud?<br>5. Pe byddai'r tarfu yma'n digwydd eto, beth fyddech chi eisiau ei wneud eto, a pham? Oes unrhyw beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?</td></tr>
<tr><td>Beth weithiodd yn dda?</td><td>Pam ei fod wedi gweithio?</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2"><u>Sgwrs 2</u>:<br>Gan edrych ymlaen, sut mae galluogi dysgwyr fel eu bod nhw’n barod i ddysgu? Beth yw’r cyfleoedd a’r heriau i gael dysgwyr yn barod i ddysgu a gallu dysgu? Sut mae goresgyn yr heriau hynny?<br><br>Ysgogiadau:<br>1. Beth yw’r cyfleoedd a’r heriau i lesiant dysgwyr a sut gallai’r rhain effeithio ar eu parodrwydd i ddysgu?<br>2. Beth yw’r cyfleoedd a’r heriau i lesiant staff, a sut gallai’r rhain effeithio ar ein gallu i gael dysgwyr i ddysgu eto?<br>3. Sut gall dysgwyr ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth, a mynd i’r afael ag amser dysgu maen nhw wedi’i golli? Pa elfennau o ddysgu sy’n bwysig canolbwyntio arnyn nhw, a pham?<br>4. Sut fyddwn ni’n gwybod a yw dysgwyr wedi llwyddo i adfer eu dysgu?<br>5. Sut gall y system addysg ehangach helpu i fynd i’r afael â’r cyfleoedd a’r heriau hynny?</td></tr>
<tr><td>Beth yw’r heriau?</td><td>Sut rydym yn eu goresgyn?</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2"><u>Sgwrs 3</u>:<br>Gan edrych ymlaen, sut rydym yn galluogi’r holl ddysgwyr i wneud y cynnydd y mae angen iddynt wneud? Beth yw’r cyfleoedd a’r heriau i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd? Sut mae goresgyn yr heriau hyn?<br><br>Ysgogiadau:<br>1. Ble’r ydych chi eisiau i’ch dysgwyr fod ymhen chwe mis?<br>2. Beth yw’r heriau a’r cyfleoedd wrth helpu eich dysgwyr i gyrraedd lle’r ydych chi eisiau iddyn nhw fod?<br>3. Beth gallwch chi wneud yn eich ysgol i wireddu eich gweledigaeth ar gyfer eich dysgwyr?<br>4. Sut gall y system addysg ehangach helpu i fynd i’r afael â’r cyfleoedd a’r heriau?</td></tr>
<tr><td>Beth yw’r heriau?<br>Pwyntiau allweddol, themâu a chasgliadau</td><td>Sut rydym yn eu goresgyn?<br>Pwyntiau allweddol, themâu a chasgliadau</td></tr>
</table>

© Hawlfraint y Goron 2021 WG42833 ISBN digidol 978 1 80195 416 7